# Cynllun Lles Sir y Fflint

# Cynllun Integredig Sengl i Sir y Fflint

2013 - 2017

Sir y Fflint Mewn Partneriaeth

Flintshire in Partnership

# Diolchiadau

Llawer o ddiolch i'n partneriaid. Mae'r cyrff a ganlyn wedi'n helpu i ddatblygu'r Cynllun Integredig Sengl i Sir y Fflint ac i'w roi ar waith:

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

North Wales Fire & Rescue Service

GIG Cymru NHS Wales
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
University Health Board

North Wales Police
A safer North Wales

GIG Cymru NHS Wales
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Flintshire Local Voluntary Council
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint

Prawf Cymru
Wales Probation

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Coleg Cambria

Prifysgol Glyndŵr University

Sir y Fflint mewn Partneriaeth
Flintshire in Partnership

# Cynnwys


| | Tudalen(au) |
|---|---|
| Diolchiadau | 2 |
| Rhagair - Nodyn gan Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol | 4 |
| Cyflwyniad - Croeso i Gynllun Integredig Sengl Lleol Cyngor Sir y Fflint | 5 |
| Dilyn y Cynllun - Arweiniad hwylus | 7 |
| Blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar gyfer 2013/14 | 8 |
| Blaenoriaeth 1 - Arwain drwy Esiampl fel Cyflogwyr ac Arweinwyr Cymunedol | 9 |
| Blaenoriaeth 2 - Mae Pobl yn Ddiogel | 21 |
| Blaenoriaeth 3 - Mae Pobl yn Mwynhau Iechyd Da, Lles ac Annibyniaeth | 34 |
| Blaenoriaeth 4 - Arferion Amgylcheddol Sefydliadau | 53 |
| Casglu a Rhannu Gwybodaeth | 68 |
| Ymgynghori ac Ymgysylltu - Cynnwys Pobl yn ein Gwaith | 70 |
| Trefniadau Llywodraethu a Sicrwydd | 71 |
| Monitro ac Adolygu | 73 |
| Fformatau hygyrch | 73 |

# Nodyn gan Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol



Tynnwyd y llun uchod pan gafodd Addewid y Cyflogwyr ei lofnodi'n ffurfiol, Datganiad o fwriad ynghylch un o'n Blaenoriaethau.

Mae Sir y Fflint yn ymfalchïo yn ei record hir o weithio mewn partneriaeth. Mae'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu'n disgwyl, a hynny'n gwbl briodol, i'r partneriaid statudol a'r partneriaid yn y trydydd sector weithio gyda'i gilydd, gweithio i gyflawni blaenoriaethau cyffredin a chael y maen i'r wal drwy ymdrechu ar y cyd. Y corff sy'n ganolog i'r gwaith o hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o gydweithio gan grynhoi egni, ymdrech ac anoddau i ddatrys rhai o broblemau cymdeithasol mawr y dydd yw'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, sef corff y mae'n anrhydedd i ni ei wasanaethau.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir y Fflint wedi mynd o nerth i nerth. Mae'n dîm da ac unedig. Rydym wedi gosod pedair blaenoriaeth gychwynnol ar gyfer ein gwaith a chânt eu disgrifio'n llawn yn y Cynllun hwn. Rydym wedi gwneud cynnydd cychwynnol da o ran cyflawni'r blaenoriaethau hyn, fel y gwelir yn y dystiolaeth a nodir yn ein Cynllun. Yn ogystal â gweithio tuag at gyflawni'r blaenoriaethau hyn, ein gwaith ni yw sicrhau bod y partneriaethau ategol yn gweithio'n effeithiol o fewn eu meysydd cyfrifoldeb penodol nhw i wella gwasanaethau a chanlyniadau i bobl leol.

Hyderwn y bydd ein Cynllun yn cynnig gwybodaeth ac ysbrydoliaeth. Mae Sir y Fflint yn sir sy'n perfformio'n dda ac mae ganddi ddyfodol da o'i blaen. Gyda'n gilydd gallwn barhau i wneud gwahaniaeth heddiw ac yn y dyfodol.

# Croeso i Gynllun Integredig Sengl Lleol Cyngor Sir y Fflint

Mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir y Fflint (y Bwrdd) yn falch o gyflwyno'r "Cynllun Lles: Cynllun Integredig Sengl i Sir Fflint".

Yn gynnar yn 2012, gofynnodd Llywodraeth Cymru i awdurdodau Cymru baratoi Cynllun Integredig Sengl (CIS) yn seiliedig ar eu gweledigaeth leol gyffredin, ac i ad-drefnu eu partneriaethau lleol.

Mae'r arweiniad a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn esbonio swyddogaeth cyrff llywodraeth leol a'u partneriaid a'r nod yw integreiddio cynlluniau ar gyfer gwasanaethau lleol, symleiddio dulliau o weithio mewn partneriaeth a chryfhau swyddogaeth ac atebolrwydd y Bwrdd.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir y Fflint yn cynnwys uwch arweinwyr o nifer o gyrff cyhoeddus a gwirfoddol: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Coleg Cambria, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, Prifysgol Glyndŵr, Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gwasanaeth Prawf Cymru a Llywodraeth Cymru. Daw'r sefydliadau hyn at ei gilydd i weithio fel corff o'r enw "Sir y Fflint mewn Partneriaeth" ac maent yn gyfrifol am ddatblygu a bwrw ymlaen â'r Cynllun Integredig Sengl i Sir y Fflint.

Mae CIS Sir y Fflint yn cynnwys nifer o bartneriaethau/cynlluniau presennol/blaenorol:

- Gweledigaeth Cyngor Sir y Fflint ar gyfer y Sir, 2009 - 2019
- Cynllun Strategol Diogelwch Cymunedol, 2011 - 2014
- Strategaeth Iechyd Da, Gofal Da, 2011 – 2014 (Y Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles)
- Cynllun Gwneud Gwahaniaeth Cadarnhaol 2011 – 2014 (Y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc)

Wrth ddatblygu'r CIS, cwblhawyd gwaith yn y meysydd a ganlyn:

- Datblygu blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol
- Adolygu Gweledigaeth Cyngor Sir y Fflint ar gyfer y Sir

- Adolygu'n perfformiad yn y pedwar maes gwaith sy'n rhan o Raglen Gwasanaethau Effeithiol i Bobl sy'n Agored i Niwed. http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/pslg/nwp/effectservices/?skip=1&lang=cy
- Datblygu rôl y Bwrdd Gwasanaethau Lleol
- Sicrhau dulliau effeithiol o lywodraethu partneriaethau strategol
- Ad-drefnu partneriaethau a chynlluniau

Er bod y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn sylweddoli bod llawer y gallem ei wneud i ychwanegu gwerth at wasanaethau cyhoeddus a chymunedau Sir y Fflint, rydym wedi gosod pedair blaenoriaeth gychwynnol a nifer o is-flaenoriaethau. Dewiswyd y blaenoriaethau hyn gan mai'r rhain oedd y themâu yr oeddem yn teimlo y gallem ychwanegu'r gwerth mwyaf atynt a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol a pharhaol. Dros oes y CIS, byddwn yn ailystyried y blaenoriaethau blynyddol ac yn eu haddasu'n ôl yr angen a'r amgylchiadau. Dyma'r pedair blaenoriaeth gychwynnol:-

- **Blaenoriaeth 1 - Arwain drwy esiampl fel cyflogwyr ac arweinwyr cymunedol**
- **Blaenoriaeth 2 - Mae pobl yn ddiogel**
- **Blaenoriaeth 3 - Mae pobl yn mwynhau iechyd da, lles ac annibyniaeth**
- **Blaenoriaeth 4 - Arferion amgylcheddol sefydliadau**

Cydweithio i ddylanwadu ar y blaenoriaethau hyn yw nod cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, ond rydym yn sylweddoli na all yr un corff gyflawni'r cyfan ar ei ben ei hun; gall y cyrff a gynrychiolir ar y Bwrdd weithio ar y cyd i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yn Sir y Fflint a'r rhai sy'n ymweld â'r Sir.

Ar y we y bydd y ddogfen hon yn ymddangos a, drwy hynny, bydd modd i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol sicrhau ei bod yn gyfredol, a'i bod yn adlewyrchu gwaith mwyaf cyfredol y Bwrdd.

# Dilyn y Cynllun...

Ar y tudalennau a ganlyn, rydym yn esbonio blaenoriaethau Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir y Fflint (y Bwrdd) , sef;

**Blaenoriaeth 1**: **Arwain drwy esiampl fel cyflogwyr ac arweinwyr cymunedol**

**Blaenoriaeth 2**: **Mae pobl yn ddiogel**

**Blaenoriaeth 3**: **Mae pobl yn mwynhau iechyd da, lles ac annibyniaeth**

**Blaenoriaeth 4**: **Arferion amgylcheddol sefydliadau**

Mae'r blaenoriaethau i'w gweld yn y diagram drosodd. Pwrpas y diagram hwn yw dangos blaenoriaethau cyffredinol y Bwrdd a'r is-flaenoriaethau cychwynnol ategol. Mae'r diagram hefyd yn dangos sut y bydd gwaith y tu allan i gwmpas y CIS presennol yn parhau i fynd rhagddo i ddiwallu anghenion pobl Sir y Fflint. Y blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer y flwyddyn bresennol yw'r rheini y mae'r Bwrdd yn hyderus y gallant ddylanwadu fwyaf arnynt drwy weithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth.


Defnyddiwyd lliw gwahanol ar gyfer pob blaenoriaeth. Er enghraifft, mae "Mae pobl yn ddiogel" yn **las** ac "Arferion Amgylcheddol Sefydliadau" yn **wyrdd**.
Bydd y cod lliw hwn yn ei gwneud yn haws dilyn y blaenoriaethau wrth i'r darllenydd ddarllen y ddogfen.
Mae bob Maes Blaenoriaeth yn rhoi manylion yr is-flaenoriaethau o fewn pob blaenoriaeth.

Ar ddiwedd pob blaenoriaeth, mae cynllun gweithredu (ar gyfer y cyfnod 2013 - 2017) yn esbonio'r camau y bydd y Bwrdd yn eu cymryd ar y cyd, yn nodi'r prif bartner a'r partneriaid ategol ar gyfer pob is-flaenoriaeth ac yn rhoi trosolwg ar amserlenni ar gyfer cwblhau'r gwaith. Ar ddiwedd pob maes blaenoriaeth mae adran sy'n cynnwys hyperddolenni defnyddiol i ddogfennau defnyddiol eraill ac adran "Symud ymlaen" i dynnu sylw at unrhyw feysydd blaenoriaeth newydd/sy'n datblygu.

Wrth ddatblygu'r Cynllun hwn, mae'r Bwrdd wedi defnyddio data a thystiolaeth i nodi'i flaenoriaethau a'r hyn y mae angen ei wneud i sicrhau'r gwelliannau gofynnol. Mae rhagor o fanylion i'w cael yn yr adran "Casglu a Rhannu Gwybodaeth" yng nghefn y ddogfen hon. Mae'r Bwrdd wedi defnyddio sylwadau a gafwyd gan y cyhoedd ac amrywiol randdeiliaid wrth baratoi cynnwys y Cynllun hwn a chynlluniau cyflenwi ar gyfer y dyfodol. Darllenwch yr adran "Ymgynghori ac Ymgysylltu" yng nghefn y cynllun hwn i gael rhagor o wybodaeth.

Mae trosolwg ar drefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd yng nghefn y Cynllun hefyd.

# Blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol 2013/14



# Blaenoriaeth 1: Arwain drwy esiampl fel cyflogwyr ac fel arweinwyr cymunedol



Ian Budd - Cyngor Sir Y Fflint

| Is -flaenoriaethau | |
|---|---|
| | **Diogelu a hybu lles ein gweithwyr, ein gwifoddolwyr a'n cymunedau** |
| | **Hybu dysgu gydol oes a chyflogadwyedd ein gweithwyr a'n gwirfoddolwyr** |
| | **Gwella rhagolygon pobl ifanc hyd at 25 oed o ran addysg, hyfforddiant a gwaith** |

## Pam mae hyn yn flaenoriaeth?

Fel rhai o brif gyflogwyr Sir y Fflint, mae gan bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (y Bwrdd) ran bwysig yn y broses o wneud gwahaniaeth i fywydau pobl gan sicrhau bod arian cyhoeddus hefyd yn cael ei ddefnyddio'n well. I hybu'r flaenoriaeth hon, mae'r Bwrdd wedi nodi tri maes allweddol a bydd yn creu rhagor o gyfleoedd drwy weithio mewn partneriaeth. Dyma'r is-flaenoriaethau:

- Diogelu a hyrwyddo lles ein gweithwyr, ein gwirfoddolwyr a'n cymunedau.
- Hybu dysgu gydol oes a chyflogadwyedd ein gweithwyr a'n gwirfoddolwyr.
- Gwella rhagolygon pobl ifanc hyd at 25 oed o ran addysg, hyfforddiant a gwaith.

Fel cyflogwyr ac arweinwyr cymunedol, bydd y Bwrdd yn ceisio sicrhau y bydd yn haws i bobl Sir y Fflint gymryd rhan mewn bywyd dinesig, cymdeithasol ac economaidd, ac elwa ohono. Y weledigaeth ar gyfer y flaenoriaeth hon yw i Sir y Fflint fod yn sir lle mae gan weithwyr, gwirfoddolwyr a chymunedau ymdeimlad o les, a lle mae pobl yn cael eu cynorthwyo i gyflawni'u hamcanion a'u huchelgais mewn bywyd.

Er bod y tair is-flaenoriaeth wedi'u nodi fel meysydd allweddol y mae angen ymdrin â nhw, yn ystod y flwyddyn hon byddwn yn canolbwyntio ar wella rhagolygon pobl ifanc hyd at 25 oed o ran addysg, hyfforddiant a gwaith. At y diben hwn, sefydlwyd Bwrdd Prosiect Prentisiaeth, Mentergarwch a Phrofiad Gwaith. Partneriaeth amlasiantaeth yw hon sy'n cynnwys partneriaid strategol a phartneriaid cyflenwi, a'i chylch gwaith penodol yw rhoi'r flaenoriaeth hon ar waith.

Mae gan y Bwrdd dair uchelgais yn y cyswllt hwn: -

1. Bod yn gyflogwr y mae pobl yn dewis gweithio iddo. Bydd yr Addewid y Cyflogwyr yn cyfrannu at hyn ac yn cydnabod y safonau y mae'n rhaid eu cyrraedd i fod yn gyflogwr sy'n gosod esiampl.
2. Datblygu, hyrwyddo a hybu amrywiaeth o gyfleoedd i'r rhai sy'n gweithio mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion yn ogystal â'n cymunedau.
3. Datblygu, hyrwyddo a hybu amrywiaeth ehangach o gyfleoedd addysg a hyfforddiant i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed.

Bydd y rhain yn cynnwys:

- Gwella ac ehangu cynlluniau presennol a chynlluniau yn y dyfodol i bobl newydd yn y byd addysg ac wedi i bobl gwblhau eu haddysg, drwy gyfrwng prentisiaethau, mentergarwch a phrofiad gwaith.
- Gofalu bod gan bobl y sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr lleol i'w helpu i fanteisio ar gyfleoedd gwaith lleol.
- Helpu i ddatblygu academïau newydd yn seiliedig ar ddiwydiant fel model a fydd yn galluogi pobl ifanc i ddatblygu sgiliau a fydd yn eu helpu i gael gwaith.
- Sicrhau gwell cymwysterau drwy helpu i greu profiadau gwaith drwy gyfrwng lleoliadau galwedigaethol.
- Helpu i ddatblygu Rhaglen Entrepreneuriaid Ifanc fel rhan o Rwydwaith Entrepreneuriaeth Busnes Sir y Fflint.

## Ble'r ydym ni'n awr?

Mae lefelau cyflogaeth yn Sir y Fflint ymhlith y gorau yng Nghymru a dim ond 2.7% o bobl oedran gweithio yn y sir sy'n hawlio lwfans ceisio gwaith. Er hynny, mae diweithdra ymhlith pobl ifanc 16-24 oed yn cynyddu gan greu goblygiadau hirdymor o ran lles a ffyniant, er enghraifft, diweithdra hirdymor, cyrhaeddiad addysgol isel ac iechyd meddwl gwael. Yn ogystal â hyn, mae cyfran gyson o'n poblogaeth yn anweithgar yn economaidd, nid oes ganddynt gymwysterau, neu prin ddim cymwysterau, ac maent yn aml yn byw mewn cymunedau lle nad oes fawr o gyfleoedd gwaith.

Er bod y nifer rhwng 16 ac 18 oed sy'n dilyn cyrsiau yn yr ysgol a'r coleg yn uchel, ac yn cynyddu, mae nifer y cyfleoedd galwedigaethol yn brin. Mae rhai o'n partneriaid yn mynegi pryder cynyddol am yr hyn sydd ar gael ar ôl ysgol neu goleg. Mae ffigurau'n dangos bod diweithdra'n cynyddu ymhlith pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed yn genedlaethol.

Disgwylir i'r sectorau a ganlyn dyfu yn Sir y Fflint rhwng 2010 a 2020: adeiladu, cyfanwerthu / manwerthu ac uwchgynhyrchu.

Bydd cyflogwyr yn chwilio am weithwyr cymwys sydd â'r sgiliau priodol i sicrhau bod y potensial o ran twf a gwaith yn cael ei wireddu.

Mae iechyd a lles yn ddibynnol ar amrywiaeth eang o ffactorau. Fel cyflogwyr a darparwyr gwasanaethau, mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb a rhan bwysig yn y gwaith o fynd i'r afael â'r rhesymau dros iechyd gwael, annhegwch ym maes iechyd a marwolaethau cynnar yn y sir, a chanlyniadau'r problemau hyn.

## Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth - Sir y Fflint yn 2017

Gwaith:

- Cynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar gyfleoedd i weithio a gwirfoddoli.
- Llai yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith.
- Rhaglen Entrepreneuriaeth ddatblygedig a chynaliadwy i gynyddu'r nifer sy'n llwyddo i sefydlu menter yn Sir y Fflint.
- Cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n cael gwaith cyflogedig neu'n dechrau eu busnes eu hunain.
- Cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n manteisio ar leoliadau profiad gwaith.

Addysg a sgiliau:

- Cynnydd mewn cyrhaeddiad addysgol.
- Cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n ennill cymwysterau ac achrediaeth anffurfiol a ffurfiol.
- Rhaglen Entrepreneuriaeth ddatblygedig a chynaliadwy i gynyddu'r nifer sy'n llwyddo i sefydlu menter yn Sir y Fflint.
- Cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n cael prentisiaethau.

## Ble'r ydym ni'n awr?

Dyma ganlyniadau Arolwg Iechyd Cymru yn 2011/12:

- Dywedodd 57% o oedolion Sir y Fflint eu bod yn rhy drwm neu'n ordew.
- Dywedodd 22% eu bod yn ysmygu.
- Dywedodd 44% o oedolion yn Sir y Fflint eu bod, cyn iddynt gymryd rhan yn yr arolwg, yn yfed mwy o alcohol unwaith yr wythnos na'r hyn a gaiff ei argymell.

Mae aelodau'r Bwrdd yn gyflogwyr arwyddocaol. Yn genedlaethol, mae absenoldeb oherwydd salwch yn y sector cyhoeddus rhwng un a hanner a dwywaith mwy na'r sector preifat. Rhaid cymryd camau i wella iechyd gweithwyr ac i reoli absenoldeb oherwydd salwch fel ffordd o gyfrannu at les yn gyffredinol.

## Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth - Sir y Fflint yn 2017

Iechyd a Lles Cymunedol:

- Llai o bobl yn ysmygu.
- Llai o bobl sy'n rhy drwm neu'n ordew.
- Llai o bobl yn yfed mwy o alcohol na'r hyn y mae'r canllawiau'n ei argymell.
- Lles mewn cymunedau penodol wedi gwella.

Iechyd a lles sefydliadol:

- Llai o absenoldebau oherwydd salach (tymor byr a thymor hir).
- Bydd yn haws cael cymorth i roi'r gorau i ysmygu, i gymryd rhan mewn ymarfer corff ac i fwyta'n iach.
- Bydd cyrff sy'n rhan o'r bartneriaeth yn cael cymorth i ennill gwobr platinwm yn y Safon Iechyd Corfforaethol.
- Lles mewn cymunedau penodol wedi gwella.

# Beth Rydym Am Ei Wneud

Partneriaid Allweddol: Prif Bartner (Prif) / Partner Ategol (Ategol)

| Yn Sir y Fflint, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i wneud yr isod: | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) | Gyrfa Cymru | Coleg Cambria | Cyngor Sir y Fflint (CSyFF) | Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC) | Prifysgol Glyndŵr | Cyfoeth Naturiol Cymru | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | Heddlu Gogledd Cymru | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Gwasanaeth Prawf Cymru | Llywodraeth Cymru | Pa is-flaenoriaethau fydd y gwaith hwn yn cyfrannu atynt? Diogelu a hybu lles ein gweithwyr, ein gwirfoddolwyr a'n cymunedau | Hybu dysgu gydol oes a chyflogadwyedd eich gweithwyr a'n gwirfoddolwyr | Gwella rhagolygon pobl ifanc hyd at 25 oed o ran addysg, hyfforddiant a gwaith (ESVP) | Amserlen 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynorthwyo pobl o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf i gwblhau cyrsiau achrededig yn y gymuned. | Ategol | Ategol | Ategol | Prif | Ategol | Ategol | Ategol | Ategol | Ategol | Ategol | Ategol | Ategol | ✓ | | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Creu mwy o gyfleoedd i greu cymunedau cydnerth a chydlynol. | Ategol | Ategol | Ategol | Prif | Ategol | Ategol | Ategol | Ategol | Ategol | Prif | Ategol | Ategol | ✓ | | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Gwella iechyd a lles pobl drwy eu hannog i gyfrannu mwy at weithgareddau cymunedol fel y Prosiect Dysgu i Hybu Iechyd. | Ategol | Ategol | Ategol | Prif | Ategol | Ategol | Ategol | Ategol | Ategol | Prif | Ategol | Ategol | ✓ | | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Datblygu, hyrwyddo a hybu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu gydol oes i bobl a hynny yn eu gwaith, yn yr ysgol, coleg a'r brifysgol, ac yn ein cymunedau. | Ategol | Ategol | Prif | Prif | Ategol | Ategol | Ategol | Ategol | Ategol | Ategol | Ategol | Ategol | ✓ | ✓ | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |

# Beth Rydym Am Ei Wneud

| Yn Sir y Fflint, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i wneud yr isod: | Partneriaid Allweddol (Prif Bartner / Partner Ategol): Betsi Cadwaladr University Health Board (BCUHB) | Gyrfa Cymru | Coleg Cambria | Cyngor Sir y Fflint (CSyFF) | Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC) | Prifysgol Glyndwr | Cyfoeth Naturiol Cymru | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | Heddlu Gogledd Cymru | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Gwasanaeth Prawf Cymru | Llywodraeth Cymru | Pa is-flaenoriaethau fydd y gwaith hwn yn cyfrannu atynt?: Diogelu a hybu lles ein gweithwyr, ein gwirfoddolwyr a'n cymunedau | Hybu dysgu gydol oes a chyflogadwyedd eich gweithwyr a'n gwirfoddolwyr | Gwella rhagolygon pobl ifanc hyd at 25 oed o ran addysg, hyfforddiant a gwaith | Amserlen: 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Recriwtio Rheolwr Prosiect (0.5FTE) i fwrw ymlaen â Blaenoriaeth 1 y Bwrdd. | | | | Prif Bartner | | | | | | | | Partner Ategol | ✓ | ✓ | ✓ | ✗ | | | | |
| Rhoi rhaglenni hyfforddi goruchwylio a rheoli ar waith. | | | Prif Bartner | Prif Bartner | | | | | | | | | | ✓ | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Dylai cyrsiau dysgu arwain (os yw hynny'n bosibl) at gymwysterau, gan sicrhau bod modd trosglwyddo unrhyw sgiliau a ddysgwyd i sefydliadau eraill gan gynyddu cyflogadwyedd gweithwyr. | Partner Ategol | Partner Ategol | Prif Bartner | Prif Bartner | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | | ✓ | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Datblygu a lansio Addewid y Cyflogwyr yn y sector cyhoeddus i hyrwyddo ac i ychwanegu at ein rôl fel cyflogwr sy'n gosod esiampl i eraill. | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Prif Bartner | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | ✓ | ✓ | ✓ | ✗ | ✗ | | | |

# Beth Rydym Am Ei Wneud

| Yn Sir y Fflint, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i wneud yr isod: | Partneriaid Allweddol: Prif Bartner / Partner Ategol | | | | | | | | | | | | Pa is-flaenoriaethau fydd y gwaith hwn yn cyfrannu atynt? | | | Amserlen | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bwrdd iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB) | Gyrfa Cymru | Coleg Cambria | Cyngor Sir y Fflint (CSyFF) | Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC) | Prifysgol Glyndwr | Cyfoeth Naturiol Cymru | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | Heddlu Gogledd Cymru | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Gwasanaeth Prawf Cymru | Llywodraeth Cymru | Diogelu a hybu lles ein gweithwyr, ein gwirfoddolwyr a'n cymunedau | Hybu dysgu gydol oes a chyflogadwyedd eich gweithwyr a'n gwirfoddolwyr | Gwella rhagolygon pobl ifanc hyd at 25 oed o ran addysg, hyfforddiant a gwaith | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
| Casglu data i helpu i ddatblygu gwybodaeth llinell sylfaen am nifer y prentisiaethau, cynlluniau dan hyfforddiant a phrofiadau gwaith ym mhob sefydliad sy'n rhan o'r bartneriaeth. | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Prif Bartner | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | | | ✓ | ✗ | ✗ | | | |
| Creu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc hyd at 25 oed yn y sector cyhoeddus o ran addysg, hyfforddiant a chyfleoedd gwaith. | Partner Ategol | Partner Ategol | Prif Bartner | Prif Bartner | Prif Bartner | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | | | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Datblygu gwefan tebyg i fodel Inform Swansea i helpu i hyrwyddo gwaith Prosiect AEWE a'r gwahanol gyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc. | | Partner Ategol | | | Prif Bartner | | | | | | | | | | ✓ | ✗ | ✗ | | | |
| Gweithio gyda'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i gynyddu nifer y prentisiaethau, cynlluniau dan hyfforddiant a phrofiadau gwaith. | Partner Ategol | Partner Ategol | Prif Bartner | Prif Bartner | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | | | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |

# Beth Rydym Am Ei Wneud

| Yn Sir y Fflint, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i wneud yr isod: | Partneriaid Allweddol (Prif Bartner / Partner Ategol) | | | | | | | | | | | | Pa is-flaenoriaethau fydd y gwaith hwn yn cyfrannu atynt? | | | Amserlen | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB) | Gyrfa Cymru | Coleg Cambria | Cyngor Sir y Fflint (CSyFF) | Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC) | Prifysgol Glyndŵr | Cyfoeth Naturiol Cymru | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | Heddlu Gogledd Cymru | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Gwasanaeth Prawf Cymru | Llywodraeth Cymru | Diogelu a hybu lles ein gweithwyr, ein gwirfoddolwyr a'n cymunedau | Hybu dysgu gydol oes a chyflogadwyedd eich gweithwyr a'n gwirfoddolwyr | Gwella rhagolygon pobl ifanc hyd at 25 oed o ran addysg, hyfforddiant a gwaith | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
| Paratoi strategaeth marchnata i hyrwyddo'r amrywiol brentisiaethau, cynlluniau dan hyfforddiant a chyfleoedd gwaith sydd ar gael. | | | Prif Bartner | Prif Bartner | | | | | | | | | | | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | | |
| Nodi'r bwlch mewn sgiliau i gynyddu nifer y prentisiaethau a'r rhaglenni eraill a buddsoddi i hyfforddi. | Partner Ategol | Partner Ategol | Prif Bartner | Prif Bartner | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | | | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | | |
| Parhau i ddatblygu a chynyddu nifer ac amrywiaeth y rhaglenni a gynigier gan Glwb Cymunedau'n Gyntaf. | | | | Prif Bartner | | | | | | | | | | | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Helpu i ddatblygu'r Rhaglen Entrepreneuriaid Ifanc gyda Rhwydwaith Entrepreneuriaeth Busnes Sir y Fflint. | | | Partner Ategol | Prif Bartner | | | | | | | | | | | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | | |

# Beth Rydym Am Ei Wneud

| | Partneriaid Allweddol (Prif Bartner / Partner Ategol) | | | | | | | | | | | | Pa is-flaenoriaethau fydd y gwaith hwn yn cyfrannu atynt? | | | Amserlen | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yn Sir y Fflint, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i wneud yr isod: | Bwrdd iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB) | Gyrfa Cymru | Coleg Cambria | Cyngor Sir y Fflint (CSyFF) | Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC) | Prifysgol Glyndŵr | Cyfoeth Naturiol Cymru | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | Heddlu Gogledd Cymru | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Gwasanaeth Prawf Cymru | Llywodraeth Cymru | Diogelu a hybu lles ein gweithwyr, ein gwirfoddolwyr a'n cymunedau | Hybu dysgu gydol oes a chyflogadwyedd eich gweithwyr a'n gwirfoddolwyr | Gwella rhagolygon pobl ifanc hyd at 25 oed o ran addysg, hyfforddiant a gwaith | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
| Rhoi rhaglenni datblygu sgiliau ar waith mewn partneriaeth â chyflogwyr lleol. | Partner Ategol | Partner Ategol | Prif Bartner | Prif Bartner | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | | | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Datblygu Cynllun Gweithredu fel rhan o Fframwaith Ennyn Diddordeb a Datblygu Pobl Ifanc. | | Partner Ategol | Partner Ategol | Prif Bartner | | | | | | | | Partner Ategol | | | ✓ | ✗ | ✗ | | | |
| Datblygu a rhoi Protocol Rhannu Gwybodaeth ar waith i hybu gwaith y Flaenoriaeth hon. | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Prif Bartner | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | | | ✓ | ✗ | ✗ | | | |

# Beth Rydym Am Ei Wneud

| Yn Sir y Fflint, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i wneud yr isod: | Partneriaid Allweddol (Prif Bartner / Partner Ategol): Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB) | Gyrfa Cymru | Coleg Cambria | Cyngor Sir y Fflint (CSyFF) | Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC) | Prifysgol Glyndŵr | Cyfoeth Naturiol Cymru | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | Heddlu Gogledd Cymru | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Gwasanaeth Prawf Cymru | Llywodraeth Cymru | Pa is-flaenoriaethau fydd y gwaith hwn yn cyfrannu atynt?: Diogelu a hybu lles ein gweithwyr, ein gwirfoddolwyr a'n cymunedau | Hybu dysgu gydol oes a chyflogadwyedd eich gweithwyr a'n gwirfoddolwyr | Gwella rhagolygon pobl ifanc hyd at 25 oed o ran addysg, hyfforddiant a gwaith | Amserlen: 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu cynllun prentisiaeth a gaiff ei arwain gan y diwydiant adeiladu. | | | Prif Bartner | Prif Bartner | | | | | | | | | | | ✓ | ✗ | ✗ | | | |
| Creu mentrau i hybu cyfleoedd gwaith yn y gymuned i bobl ifanc yn Sir y Fflint. | | Partner Ategol | Prif Bartner | Prif Bartner | Partner Ategol | | | | | | | Partner Ategol | | | ✓ | ✗ | ✗ | | | |
| Datblygu Canolfan Sgiliau Cynhyrchu a Thechnoleg yng Ngogledd Cymru (NWAMSTC). | | | Prif Bartner | Prif Bartner | | Partner Ategol | | | | | | Partner Ategol | | | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |

## Symud ymlaen (materion y bydd angen eu hystyried wrth roi cynlluniau gweithredu ar waith yn y dyfodol):

Hyd yma, mae'r rhan fwyaf o waith cyflenwi wedi canolbwyntio ar y drydedd is-flaenoriaeth, sef Gwella rhagolygon pobl ifanc hyd at 25 oed o ran addysg, hyfforddiant a gwaith. Fodd bynnag, a ninnau'n wynebu problemau mawr oherwydd gostyngiadau mewn arian yn y sector cyhoeddus, mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn cydnabod ei bod yn bwysicach nag erioed ein bod yn ymrwymo i'r egwyddorion allweddol sy'n sail i weithredu fel cyflogwyr cyfrifol. Felly, caiff rhaglen waith glir ei datblygu i hybu'r ddwy is-flaenoriaeth gyntaf yn y dyfodol:

- Diogelu a hyrwyddo lles ein gweithwyr, ein gwirfoddolwyr a'n cymunedau.
- Hybu cyfleoedd dysgu gydol oes a chyflogadwyedd ein gweithwyr a'n gwirfoddolwyr.

Mae'r egwyddorion yn Addewid y Cyflogwyr yn amrywio o ddefnyddio dulliau cyfrifol o recriwtio a chynllunio ar gyfer olyniaeth i ddatblygu unigolion a datblygu fel sefydliad – rhannu'r hyn a ddysgir o ran cynllunio a newid sefydliadol, a chynorthwyo staff drwy'r rhwydwaith.

## Beth yw:-

**Rhaglen Clwb Cymunedau'n Gyntaf** - Gweithio i helpu oedolion i gael gwaith.

**Addewid y Cyflogwyr** - Cyflogwyr sydd wedi ymrwymo i weithio gyda'i gilydd i greu hyfforddiant, prentisiaethau a chyfleoedd gwaith ychwanegol.

**Rhwydwaith Entrepreneuriaeth Busnes Sir y Fflint (BEN)** - Cyflogwyr sy'n gweithio gyda'i gilydd i hybu Rhaglenni Entrepreneuriaeth.

**Datganiad uchelgais** - Dogfen a baratowyd ar gyfer pob un o bedair blaenoriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac a gytunwyd gan y Bwrdd. Mae'r ddogfen hon yn rhoi darlun cyffredinol o'r hyn y mae'r Bwrdd am ei gyflawni, yr hyn y mae am ei newid a'r rhesymau dros hynny.

# Dogfennau defnyddiol eraill (hyperddolenni):

- Datganiad Uchelgais ar gyfer Blaenoriaeth 1
- Addewid y Cyflogwyr
- Adroddiadau ar Hynt Blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol
- Protocol Rhannu Gwybodaeth y Bartneriaeth
- Fframwaith Strategaeth Ennyn Diddordeb a Datblygu Pobl Ifanc – Cynllun Gweithredu
- Prentisiaethau - http://cymru.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/apprenticeships/?skip=1&lang=cy
- Addysg Oedolion yn Sir y Fflint - http://images.cambria.ac.uk/wp-content/uploads/2013/06/pt-dc.pdf
- Rhoi'r Gorau i Ysmygu - http://www.dimsmygucymru.com/hafan
- Gordewdra yng Nghymru - http://www.wales.nhs.uk/pynciauiechyd/fforddofyw/gordewdra
- Camddefnyddio alcohol - http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/hafan
- Cymunedau'n Gyntaf - http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/communities/communitiesfirst/?skip=1&lang=cy

# Blaenoriaeth 2: **Mae pobl yn ddiogel**



| Is -flaenoriaethau | Mynd i'r afael â'r ffaith bod alcohol mor hawdd ei gael a'i gamddefnyddio yn ein cymunedau |
| --- | --- |
| | Lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol gan gynnwys anafiadau |
| | Atal a rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol a mynd i'r afael â throsedd amgylcheddol |
| | Gwella gwasanaethau i bobl sy'n agored i niwed a chanolbwyntio ar gam-drin domestig |

Sacha Hatchett - Gwasanaeth Prawf Cymru

## Pam mae hyn yn flaenoriaeth?

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (y Bwrdd) yn ymdrechu i sicrhau bod Sir y Fflint yn ardal ddiogel i fyw ac i weithio ynddi ac i ymweld â hi. Mae cyfraddau trosedd ac anhrefn yn isel o'u cymharu â ffigurau cenedlaethol a rhanbarthol, ac mae gennym record dda o sicrhau bod asiantaethau statudol a gwirfoddol yn gweithio gyda'i gilydd i roi strategaethau ar waith i wneud y sir yn fwy diogel. Mae hefyd yn bwysig, fodd bynnag, lleihau'r canfyddiad o drosedd yn ein cymunedau a'r ofn y mae hynny'n ei godi.

Mae cyrff lleol wrthi'n gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i geisio gwneud y sir y fwy diogel. Mae'n cael ei gydnabod ers tro na all unrhyw un asiantaeth, ar ei phen ei hun, fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn, neu â materion 'Diogelwch Cymunedol' ehangach ac mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir fod cyfraddau trosedd wedi gostwng ers i gyrff yn y sector cyhoeddus gael eu gorfodi'n gyfreithiol i weithio gyda'i gilydd.

Ein nod yw gwneud yn siŵr bod y gwasanaethau a'r systemau sy'n gweithio'n effeithiol ar hyn o bryd yn parhau i wneud hynny, a bod yr anghenion a ddaw i'w amlwg yn cael eu diwallu'n gymesur. Bydd rhai o'r meysydd allweddol yn troi o amgylch y canlynol:

- Trosedd treisgar gan gynnwys cam-drin domestig a rhywiol.
- Aildroseddu ymhlith oedolion a phobl ifanc.
- Tawelu ofnau ac ennyn hyder y cyhoedd.
- Camddefnyddio sylweddau (gan gynnwys alcohol).
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Bob blwyddyn bydd y bwrdd yn canolbwyntio ar feysydd penodol sy'n peri pryder.

## Pam mae hyn yn flaenoriaeth?

Yn 2013-14 bydd yn canolbwyntio ar effeithiau niweidiol alcohol ac yn ymdrin â'r canlynol:

- Gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r ffaith bod alcohol mor hawdd ei gael a'i fod yn cael ei gamddefnyddio yn ein cymunedau.
- Lleihau niwed i unigolion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach oherwydd ymddygiad cysylltiedig ag alcohol.
- Lleihau effaith ymyddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig ag alcohol a throsedd amgylcheddol cysylltiedig.
- Gwella gwasanaethau i bobl sy'n agored i niwed a chanolbwyntio a'r achosion o gam-drin domestig, pob sydd ar goll a dulliau adferol.

Gall gorddefnyddio alcohol, goryfed mewn pyliau a bod yn gaeth i alcohol greu problemau cymdeithasol, seicolegol a chorfforol difrifol, gan effeithio ar waith pobl a'u perthynas ag eraill, yn gymdeithasol ac yn bersonol. Yn achos pobl ifanc, gall y canlyniadau cymdeithasol gynnwys methu'r ysgol, mynd ar ei hôl hi gyda gwaith ysgol, cael rhyw heb ei gynllunio a heb ddiogelwch, dadlau â ffrindiau, ymddygiad dinistriol a thrafferth â'r heddlu. Gall goryfed yn ystod misoedd cyntaf beichiogrwydd arwain at Syndrom Alcohol Ffetws a chymhlethdodau eraill. Mae cysylltiad cryf rhwng yfed alcohol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, anafiadau oherwydd trais a cham-drin domestig.

Mae cytundeb cyffredinol clir bod angen canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r problemau sy'n codi oherwydd goryfed niweidiol ac mae'n hanfodol ein bod yn canolbwyntio ar atal pobl rhag gwneud niwed hirdymor i'w hiechyd drwy ymyrryd yn gynnar yn achos y rheini sydd fwyaf agored i niwed, cynorthwyo'r rheini sydd eisoes yn dioddef oherwydd effaith niweidiol alcohol a diogelu teuluoedd a'r cymunedau ehangach.

## Ble'r ydym ni'n awr?

### Trosolwg

Mae'r cyfraddau trosedd ac anhrefn yn gyffredinol yn Sir y Fflint yn gostwng.

- Bu gostyngiad cyson yn nifer y troseddau a gofnodwyd yn Sir y Fflint dros y pedair blynedd diwethaf. Yn 2012/13 cafodd 1,133 llai o droseddau eu cofnodi nag yn 2009/10; gostyngiad o 13.6%.
- Ers 2009/10 mae nifer y troseddau treisgar personol wedi gostwng o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol, sef gostyngiad o 15.6%.
- Yn 2012/13 cofnodwyd 64 llai o achosion o fyrgleriaeth o gartrefi yn y sir na'r flwyddyn flaenorol, sef gostyngiad o 17.7%.
- Yn ystod yr un cyfnod gwelwyd gostyngiad o 6.1% mewn achosion o fyrgleriaeth o eiddo nad oeddent yn gartrefi, gostyngiad o 5.7% mewn achosion o ddifrod troseddol a gostyngiad o 1.5% mewn achosion o drosedd yn ymwneud â cherbydau.

## Ble'r ydym ni'n awr - ymddygiad gwrthgymdeithasol

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn cydnabod bod mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn flaenoriaeth gan ei fod yn parhau'n broblem sy'n peri pryder i bobl Sir y Fflint. Gall ymddygiad gwrthgymdeithasol fod yn niweidiol iawn i ddioddefwyr a chaiff effaith sylweddol ar ansawdd bywyd.

Fodd bynnag, mae achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gostwng. O'i gymharu â 2011/12, cafodd 364 llai o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol eu cofnodi yn Sir y Fflint nag yn 2012/13, sef gostyngiad o 6.4%.

Bu gostyngiad hefyd yn nifer yr achosion mwyaf cyffredin o ymddygiad gwrthgymdeithasol a gyfeiriwyd at adran Rheoli Llygredd Cyngor Sir y Fflint:

- Cŵn yn cyfarth - 155 o achosion yn 2012, sef gostyngiad o 11 ers 2011.
- Cerddoriaeth uchel - 101 o achosion yn 2012, sef gostyngiad o 12 ers 2011.
- Sŵn cyffredinol gan gymdogion - 44 o achosion yn 2012, sef gostyngiad o 11 ers 2011.

Yn 2012/13, rhoddwyd 132 o 'Gardiau Melyn' i bobl ifanc a oedd wedi ymddwyn yn wrthgymdeithasol yn y gymuned, cymerwyd alcohol oddi ar 31 o bobl ifanc a chymerodd 105 o bobl ifanc ran mewn Gwaith Adferol (dull o wneud iawn am y niwed a achoswyd gan ymddygiad gwrthgymdeithasol). Cyfeiriwyd 63 at y Panel Rhwystro ac Atal, sef grw ˆp amlasiantaeth i helpu'r bobl ifanc hynny sydd fwyaf tebygol o ymddwyn yn wrthgymdeithasol neu aildroseddu, a chyfeirwyd 107 at dîm Alcohol a Chyffuriau Pobl Ifanc Cyngor Sir y Fflint.

## Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth - Sir y Fflint yn 2017

- Gostyngiad yn nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Gostyngiad o nifer yr achosion o droseddu yn erbyn pobl.
- Llai o bobl risg uchel yn debygol o ddioddef oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Cynnydd yn yr hyder yn yr asiantaethau sy'n ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae Cyngor Sir y Fflint, fel Heddlu Gogledd Cymru, hefyd yn ceisio diogelu buddiannau'r rhai sy'n dioddef oherwydd trosedd a phobl sy'n agored i niwed. Mae'r gwasanaeth Wardeniaid Cymdogaeth yn cynnig gwasanaeth Tawelu Ofnau i'r bobl fwyaf agored i niwed yn y gymuned y mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithio arnynt. Cyfeiriwyd 1,084 at y gwasanaeth yn 2012 gan asiantaethau sy'n rhan o'r bartneriaeth, sef cynnydd o 451 ers y flwyddyn flaenorol.

## Ble'r ydym ni'n awr - camddefnyddio sylweddau (gan gynnwys alcohol)

Mae camddefnyddio sylweddau'n effeithio ar bob cymuned. Mae alcohol yn aml yn cyfrannu at drosedd ac anrhefn.

Ymddengys bod lefel yr alcohol y mae pobl Sir y Fflint yn ei yfed yn cyfateb yn gyffredinol â thueddiadau cenedlaethol. Er enghraifft:

- Yn 2010/11, tanlinellodd Arolwg Iechyd Cymru bod:
  - 45% o oedolion yn Sir y Fflint yn dweud eu bod yn yfed o fewn y canllawiau a gaiff eu hargymell.
  - 29% o oedolion yn Sir y Fflint eu bod yn yfed mewn pyliau.

Er hyn, mae gwasanaethau penodol i drin a chynorthwyo'r rhai sydd â phroblemau'n gysylltiedig ag alcohol. Mae'r ffigurau isod yn rhoi gwybodaeth am wasanaethau oedolion:

- Dyma'r amseroedd aros ar gyfartaledd i'r rhai sy'n chwilio am driniaeth ar gyfer problemau'n gysylltiedig ag alcohol yng ngogledd Cymru:
  - 23 diwrnod yn 2011/12.
  - 22 diwrnod yn 2012/13.

## Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth - Sir y Fflint yn 2017

- Nifer gynyddol o gleientiaid yn parhau i ymwneud â gwasanaethau i orffen eu triniaeth wedi iddynt gael eu hasesu, gan leihau nifer y cleientiaid nad ydynt yn cadw eu hapwyntiadau neu nad ydynt yn ymateb pan gysylltir â nhw ar ôl eu hasesiad.

- Amseroedd aros o lai nag 20 diwrnod gwaith rhwng cyfeirio cleientiaid a'u trin.

- Caiff prosiectau rhanbarthol sy'n ymwneud yn benodol ag alcohol a chynlluniau sy'n canolbwyntio ar wella eu comisiynu'n unol ag anghenion lleol (a gaiff eu pennu yn Strategaeth Comisiynu Gogledd Cymru).

- Dyma faint o achosion a gaewyd yng ngogledd Cymru ar ôl i bobl beidio â chadw apwyntiad neu beidio ag ymateb i ymdrechion i gysylltu â nhw wedi iddynt gael eu cyfeirio at wasanaethau:
  - 35.70% yn 2011/12.
  - 39.19% yn 2012/13.

Yn Sir y Fflint mae gwasanaeth alcohol a chyffuriau cynhwysfawr i bobl ifanc hyd at 18 oed. Mae'r gwasanaeth hwn yn canolbwyntio ar atal problemau'n ogystal â rhoi triniaeth. Cyfeiriwyd 103 o bobl ifanc at y gwasanaeth hwn yn ystod 2012/13.

## Ble'r ydym ni'n awr - cam-drin domestig

Caiff ei gydnabod yn genedlaethol bod cam-drin domestig yn gyffredin iawn, gan effeithio ar bobl o bob oed, dosbarth, hil, crefydd, rhywioldeb neu allu; ond merched sydd fwyaf tebygol o ddioddef.

Gellir diffinio cam-drin domestig fel trais corfforol, rhywiol, seicolegol neu ariannol sy'n digwydd o fewn perthynas agos neu o natur deuluol ac sy'n datblygu'n batrwm o ymddygiad gormesol. Mae'r ffactorau a all wneud person yn fwy agored i rai mathau o drais yn cynnwys oed, anabledd a thlodi, a gallant fod yn fwy agored i drais ar wahanol adegau o'u bywydau. Yn ôl y Swyddfa Gartref caiff dwy o ferched eu lladd bob wythnos gan eu partneriaid neu eu cynbartneriaid, a bydd un o bob pedair merch / un o bob chwe dyn yn y DU yn dioddef trais domestig yn ystod eu hoes.

## Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth - Sir y Fflint yn 2017

- Llai o achosion o gam-drin domestig cyson ymhlith dioddefwyr risg uchel.
- Rhagor o'r asiantaethau sy'n rhan o'r bartneriaeth yn defnyddio'r dull safonol o asesu risg ar gyfer achosion o gam-drin domestig.
- Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc o gam-drin domestig a thrais rhywiol.
- Bydd gan bob corff sy'n rhan o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol bolisi yn y gweithle ar gyfer cam-drin domestig.

# Ble'r ydym ni'n awr - cam-drin domestig

Yn Sir y Fflint, ystyrir bod hyn yn fater difrifol. Mae ffigurau Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer 2012/13 yn dangos bod 2,348 o achosion o gam-drin domestig wedi'u cofnodi yn y sir. Merched oedd 77.1% o'r rhain.

Dros y chwe blynedd diwethaf, caiff pobl sydd mewn perygl o ddioddef niwed difrifol neu o gael eu lladd, eu trafod bob mis mewn Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC). Caiff perfformiad ei fesur yn bennaf ar sail y nifer sy'n cael eu herlyn yn fynych. Yn Sir y Fflint, 28% oedd y ffigur yn 2012/13, sef y targed a bennwyd gan y Swyddfa Gartref. Mae nifer fawr yn cael eu cyfeirio at MARAC Sir y Fflint gan asiantaethau heblaw'r heddlu; sef 47% ohonynt yn ystod 2012/13.

Mae asiantaethau sy'n gweithio mewn partneriaeth yn manteisio'n sylweddol drwy fedru rhannu gwybodaeth briodol, gan fod gwahanol gyrff ac adrannau'n ymdrin â gwahanol agweddau ar anghenion dioddefwr. Mae angen i ni benderfynu sut orau i sicrhau diogelwch, iechyd a lles. Caiff gwybodaeth ei rhannu i:

- Asesu sefyllfaoedd lle ceir achosion o drais domestig.
- Nodi a rheoli a lleihau risgiau.

Yn ystod 2012/13 cyfeiriwyd 184 o achosion risg uchel ar MARAC ac roedd 255 o blant ynghlwm wrth yr achosion hyn. O'r achosion hyn, roedd 15 yn ymwneud â phobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Dim ond 7 dyn gafodd eu cyfeirio.

Yn ystod yr un cyfnod, cafodd 2,730 o ferched eu cyfeirio at gyrff Cymorth i Fenywod Sir y Fflint.

Gosodd Gwasanaeth Wardeniaid Cymdogaeth Cyngor Sir y Fflint offer mewn 170 o gartrefi, drwy ei wasanaeth 'Cartrefi Diogel,' i ganiatáu iddynt fyw'n ddiogel yn eu cartrefi yn ystod y cyfnod hwn.

Gall amrywiol brosiectau gynorthwyo i godi ymwybyddiaeth o'r materion hyn. Yn 2012/13, daeth 3,700 o ddisgyblion ysgol Sir y Fflint i weld cynhyrchiad i godi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a thrais domestig a rhywiol. Yn ôl y sylwadau a gafwyd, llwyddodd y cynhyrchiad i godi ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r agweddau cyfreithiol ar drais/ymosodiadau rhywiol, i roi gwybod iddynt am y gwasanaethau sydd ar gael i'w helpu ac i roi gwybodaeth gyffredinol am y materion hyn.

Yn ogystal â hyn, ym mis Tachwedd 2013, cyflwynodd Cyngor Sir y Fflint ei bolisi yn y gweithle ar gyfer cam-drin domestig mewn ymgais i ddiogelu ei staff.

# Beth Rydym Am Ei Wneud

| Yn Sir y Fflint, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i wneud yr isod: | Partneriaid Allweddol: Y Prif Bartner (glas) / Partner Ategol (llwyd) | | | | | | | Pa un o'r is-flaenoriaethau fydd y gwaith hwn yn cyfrannu atynt? | | | | Amserlen | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr | Cyngor Sir y Fflint | Gwasnaaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | Heddlu Gogledd Cymru | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Darparwyr Gwasanaethau yn y Trydydd Sector | Gwasanaeth Prawf Cymru | Mynd i'r afael â'r ffaith bod alcohol mor hawdd ei gael a'i gamddefnyddio yn ein cymunedau | Lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol gan gynnwys anafiadau | Atal a rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol a mynd i'r afael â throsedd amgylcheddol | Gwella gwasanaethau i bobl sy'n agored i niwed a chanolbwyntio ar gam-drin domestig, pobl sydd ar goll, a dulliau adferol | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
| Codi ymwybyddiaeth o'r rhesymau dros gamddefnyddio alcohol yn ogystal â'r canlyniadau. | Partner Ategol | Prif Bartner | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Nodi a chytuno ar y grwpiau y byddwn yn eu targedu er mwyn canolbwyntio ar y rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu niweidio gan alcohol. | Prif Bartner | Prif Bartner | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | ✓ | ✓ | ✓ | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Sicrhau bod asiantaethau gorfodi'n datblygu dulliau cydgysylltiedig i ymdrin â'r ffaith ei bod modd hawdd cael gafael ar alcohol. | | Prif Bartner | Partner Ategol | Prif Bartner | | Partner Ategol | | ✓ | | ✓ | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Sicrhau bod yr holl asiantaethau sy'n gweithio mewn partneriaeth yn defnyddio'r dull safonol o asesu achosion o gamddefnyddio alcohol. | Prif Bartner | Prif Bartner | | | | Partner Ategol | | ✓ | | | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |

# Beth Rydym Am Ei Wneud

| Yn Sir y Fflint, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i wneud yr isod: | Partneriaid Allweddol (Y Prif Bartner / Partner Ategol): Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr | Cyngor Sir y Fflint | Gwasnaaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | Heddlu Gogledd Cymru | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Darparwyr Gwasanaethau yn y Trydydd Sector | Gwasanaeth Prawf Cymru | Pa un o'r is-flaenoriaethau fydd y gwaith hwn yn cyfrannu atynt?: Mynd i'r afael â'r ffaith bod alcohol mor hawdd ei gael a'i gamddefnyddio yn ein cymunedau | Lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol gan gynnwys anafiadau | Atal a rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol a mynd i'r afael â throsedd amgylcheddol | Gwella gwasanaethau i bobl sy'n agored i niwed a chanolbwyntio ar gam-drin domestig, pobl sydd ar goll, a dulliau adferol | Amserlen: 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cydgysylltu ymgyrchoedd amlasiantaeth i gyd-daro â digwyddiadau ac adegau o'r flwyddyn pan fydd pobl yn fwy tebygol o droseddu ar ôl yfed alcohol. | Partner Ategol | Y Prif Bartner | | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | | ✓ | ✓ | | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Parhau i ddefnyddio pwerau trwyddedu i sicrhau bod llai o alcohol yn cael ei werthu, a hyrwyddo economi ddiogel hwyr y nos. | Partner Ategol | Y Prif Bartner | | Y Prif Bartner | | | | ✓ | | ✓ | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Gweithredu polisi cam-drin domestig yn y gweithle yng Nghyngor Sir y Fflint ac annog cyflogwyr mwyaf y sir i ddatblygu eu polisïau eu hunain. | Y Prif Bartner | Y Prif Bartner | | Partner Ategol | | Y Prif Bartner | | | | | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Ceisio cyfrannu at y broses o leihau achosion mynycyh o gam-drin domestig ymhlith y rhai y mae risg uchel iddynt ddioddef ohono. | Partner Ategol | Y Prif Bartner | Partner Ategol | Y Prif Bartner | Partner Ategol | Partner Ategol | | | | | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |

# Beth Rydym Am Ei Wneud

| Yn Sir y Fflint, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i wneud yr isod: | Partneriaid Allweddol: Y Prif Bartner / Partner Ategol | | | | | | | Pa un o'r is-flaenoriaethau fydd y gwaith hwn yn cyfrannu atynt? | | | | Amserlen | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr | Cyngor Sir y Fflint | Gwasnaaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | Heddlu Gogledd Cymru | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Darparwyr Gwasanaethau yn y Trydydd Sector | Gwasanaeth Prawf Cymru | Mynd i'r afael â'r ffaith bod alcohol mor hawdd ei gael a'i gamddefnyddio yn ein cymunedau | Lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol gan gynnwys anafiadau | Atal a rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol a mynd i'r afael â throsedd amgylcheddol | Gwella gwasanaethau i bobl sy'n agored i niwed a chanolbwyntio ar gam-drin domestig, pobl sydd ar goll, a dulliau adferol | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
| Parhau i ddarparu Gwasanaeth Eirioli Cam-drin Domestig i helpu dioddefwyr drwy gyfrwng y System Cyfiawnder Troseddol. | Y Prif Bartner | Y Prif Bartner | | Partner Ategol | | Y Prif Bartner | Partner Ategol | | | | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Hyrwyddo hyfforddiant a chymorth i weithwyr proffesiynol i sicrhau bod achosion yn cael eu nodi'n briodol a'u cyfeirio at MARAC. | Partner Ategol | Y Prif Bartner | Partner Ategol | Y Prif Bartner | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | | | | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Cydgysylltu'r broses gyfeirio ac ymyrryd i leihau nifer y bobl ifanc sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol yn gyson, defnyddio ymyriadau fel rhaglenni adferol neu ataliol, eu cyfeirio at wasanaethau camddefnyddio sylweddau neu eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau. | Y Prif Bartner | Y Prif Bartner | Partner Ategol | Y Prif Bartner | Partner Ategol | Partner Ategol | | ✓ | | ✓ | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | |
| Parhau i weithio'n strategol ar hyd a lled Sir y Fflint i fynd i'r afael ag aildroseddu yn yr ardal. | Partner Ategol | Y Prif Bartner | Partner Ategol | Y Prif Bartner | | | Y Prif Bartner | | | | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |

# Beth Rydym Am Ei Wneud

| Yn Sir y Fflint, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i wneud yr isod: | Partneriaid Allweddol Y Prif Bartner Partner Ategol | | | | | | | Pa un o'r is-flaenoriaethau fydd y gwaith hwn yn cyfrannu atynt? | | | | Amserlen | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr | Cyngor Sir y Fflint | Gwasnaaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | Heddlu Gogledd Cymru | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Darparwyr Gwasanaethau yn y Trydydd Sector | Gwasanaeth Prawf Cymru | Mynd i'r afael â'r ffaith bod alcohol mor hawdd ei gael a'i gamddefnyddio yn ein cymunedau | Lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol gan gynnwys anafiadau | Atal a rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol a mynd i'r afael â throsedd amgylcheddol | Gwella gwasanaethau i bobl sy'n agored i niwed a chanolbwyntio ar gam-drin domestig, pobl sydd ar goll, a dulliau adferol | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
| Darparu rhaglenni addysgol amlasiantaeth i godi ymwybyddiaeth mewn gwahanol leoliadau. | Partner Ategol | Prif Bartner | Partner Ategol | Partner Ategol | | | Partner Ategol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Parhau i fonitro tueddiadau trosedd ac anhrefn yn rheolaidd a mabwysiadu strategaethau tactegol priodol i ymateb i unrhyw gynnydd. | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | Prif Bartner | | Partner Ategol | Prif Bartner | | | ✓ | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Siarad â'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau i ddeall sut y gallwn eu gwella. | Prif Bartner | Prif Bartner | Partner Ategol | Partner Ategol | | Partner Ategol | Partner Ategol | ✓ | | | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Rhannu gwybodaeth â'n partneriaid i ddarparu gwasanaeth gwell i'r rhai sy'n dioddef oherwydd trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. | Partner Ategol | Prif Bartner | Partner Ategol | Prif Bartner | | Partner Ategol | Partner Ategol | ✓ | ✓ | | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |

DS: Cyhyd ag y bo angen darparu'r gwasanaethau uchod a bod arian ar gael, byddwn yn parhau i gyflawni'r amcanion hyn o fewn yr amserlen uchod.

## Symud ymlaen (materion y bydd angen eu hystyried mewn cynlluniau cyflenwi yn y dyfodol):

Mae llawer o waith ar y gweill ym maes diogelwch cymunedol yn rhanbarthol ac yn lleol.

Prif nod y partneriaid yw darparu gwasanaethau rhagorol i'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yn y sir ac sy'n ymweld â'r ardal, waeth pa sefydliad sy'n eu darparu. Rydym yn hyderus bod system ar gael i bartneriaid weithio gyda'i gilydd yn effeithiol yn y gymuned. Wrth symud ymlaen, byddwn yn ceisio mabwysiadu agwedd fwy cyson drwy'r rhanbarth, a mabwysiadu'r blaenoriaethau allweddol a nodir yn strategaeth Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru ar gyfer 2014/7, sef:

- Cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Camddefnyddio sylweddau
- Trosedd meddiangar

Hefyd, nodwyd y meysydd a ganlyn fel meysydd y gellir eu hystyried mewn cynlluniau cyflenwi yn y dyfodol:

- Atal/lleihau anafiadau i blant(y cartref, ffyrdd)
- Atal/lleihau anafiadau i bobl ifanc (ffyrdd)
- Atal/lleihau anafiadau ymhlith pobl hŷn (disgyn)

## Beth yw:-

**Ymddygiad gwrthgymdeithasol** - Ymddygiad sy'n diystyru eraill ac a all niweidio cymdeithas, yn fwriadol neu drwy esgeulustod.

**Cam-drin domestig** - Trais corfforol, rhywiol, seicolegol neu ariannol sy'n digwydd o fewn perthynas agos neu o natur deuluol ac sy'n rhan o batrwm o ymddygiad gormesol. Mae'r ffactorau a all wneud person yn fwy agored i rai mathau o drais yn cynnwys oed, anabledd a thlodi, a gallant fod yn fwy agored i drais ar wahanol adegau o'u bywydau.

**Datganiad uchelgais** - Dogfen a baratowyd ar gyfer pob un o bedair blaenoriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac a gytunwyd gan y Bwrdd. Mae'r ddogfen hon yn rhoi darlun cyffredinol o'r hyn y mae'r Bwrdd am ei gyflawni, yr hyn y mae am ei newid a'r rhesymau dros hynny.

# Beth yw:-

**Camddefnyddio sylweddau** - Defnyddio alcohol neu gyffuriau'n barhaus er gwaethaf effaith niweidiol hynny ar yr unigolyn sy'n eu defnyddio, ei ffrindiau, ei deulu a'r gymuned.

**Gwasanaeth Tawelu Ofnau** - Gwasanaeth a gynigir gan Wardeniaid Cymdogaeth Sir y Fflint i ddarparu offer diogelwch lefel isel i bobl sy'n byw yn Sir y Fflint ac sydd wedi dioddef oherwydd trosedd, neu sy'n 'agored i niwed'. Maent hefyd yn ymweld â phobl yn y gymuned i roi cyngor ynghylch diogelwch ac i dawelu ofnau. Gellir cyfeirio pobl at y gwasanaeth hwn drwy ffonio'r Wardeniaid ar 01352 701818.

**Rhaglenni a phrosesau adferol** - Drwy raglenni adferol, mae'r rhai sydd wedi'u niweidio gan drosedd neu wrthdaro, a'r rhai sy'n gyfrifol am y niwed, yn cyfathrebu, gan roi cyfle i bawb sydd ynghlwm wrth ddigwyddiad arbennig gymryd rhan yn y broses o wneud iawn am y niwed a symud ymlaen.

# Dogfennau perthnasol eraill (hyperddolenni):

- **Cyffredinol:-**
  Datganiad Uchelgais ar gyfer y Maes Blaenoriaeth
  Adroddiadau Cynnydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar gyfer Blaenoriaeth 2
  http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Community-Safety/Home.aspx
  http://www.north-wales.police.uk/?lang=cy-gb

- **Trosedd ac anhrefn:-**
  https://www.gov.uk/government/organisations/home-office
  http://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/Hafan.aspx

- **Ymddygiad gwrthgymdeithaosl: -**
  http://cymru.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2013/asbcp/?skip=1&lang=cy
  https://www.gov.uk/government/publications/anti-social-behaviour-order-statistics-england-and-wales-2012

## Dogfennau perthnasol eraill (hyperddolenni):

- **Camddenfyddio sylweddau**

http://cymru.gov.uk/statistics-and-research/substance-misuse/?skip=1&lang=cy
http://www.substancemisuserct.co.uk/staff/documents/SMTF_English.pdf

- **Cam-drin domestig**

http://www.allwaleshelpline.org.uk/index.php?option=com_content&view=article&id=87&Itemid=100
http://www.welshwomensaid.org.uk/index.php?option=com_content&view=article&id=116&Itemid=200
http://www.hafancymru.co.uk/cy/
http://www.north-wales.police.uk/advice-and-support/stay-safe/domestic-abuse.aspx?lang=cy-gb
http://www.domesticabusesafetyunit.net/
http://www.dynwales.org/

# Blaenoriaeth 3: Mae pobl yn mwynhau iechyd, lles ac annibyniaeth


Neil Ayling - Cyngor Sir y Fflint


John Darlington - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Is-flaenoriaethau ar gyfer 2013/14

- **Sicrhau bod dulliau cydgysylltiedig ac integredig yn cael eu defnyddio i gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau**
- **Hyrwyddo lles a gallu pobl i fyw'n annibynnol**
- **Ymateb i'r diwygiadau lles a rheoli'u heffaith**

## Pam mae hyn yn flaenoriaeth?

Wrth i ofal iechyd wella, yn sgil meddyginiaethau, triniaethau a thechnolegau newydd, mae pobl yn byw'n hirach, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu geni â chyflyrau iechyd neu anableddau a fyddai, yn y gorffennol, yn golygu y byddai disgwyl iddynt farw'n gynt na'r disgwyl. Mae'r newidiadau hyn yn golygu y gall pobl barhau i gael ansawdd bywyd da am gyfnod hirach na'r cenedlaethau blaenorol os gallant barhau i fyw'n iach ac yn annibynnol.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 65 oed neu h n yn Sir y Fflint yn cynyddu 40% rhwng 2001 a 20136.

Wrth i bobl fyw'n hirach, maent yn fwy tebygol o ddioddef un neu ragor o gyflyrau cronig a bydd cynnydd yn y nifer sy'n debygol o fod yn byw â dementia ac yn gorfod cael cymorth yn cynyddu. Mae'r rhan fwyaf sydd ag anghenion iechyd a/neu ofal yn dweud wrthym eu bod yn dymuno aros yn eu cartrefi'u hunain, ac os bydd angen iddynt fynd i'r ysbyty neu gartref i gael gofal neu driniaeth, maent yn awyddus i ddychwelyd adre cyn gynted â phosibl. Hefyd, os yw pobl yn mynd yn gynyddol ddibynnol ar eraill oherwydd eu hiechyd, ac yn methu cael y cymorth sydd ei angen arnynt i aros gartref, ni fydd gwasanaethau'n gallu ymdopi â'r galw.

Mae'n bosibl y bydd angen cymorth penodol ar deuluoedd sy'n wynebu sefyllfaoedd anodd a gwyddom y gallwn osgoi'r angen iddynt gael cymorth mwy dwys neu hirdymor drwy sicrhau bod cyrff yn gweithio gyda'r teuluoedd hynny'n gynnar yn y broses. O ganlyniad, mae'r canlyniadau i'r teulu'n gwella a bydd llai o alw am wasanaethau.

At hyn, caiff ei gydnabod y bydd angen rhoi mwy o sylw yn ystod y blynyddoedd nesaf i'r syniad o alluogi cymunedau i roi cymorth i unigolion a theuluoedd a chaniatáu iddynt fedru parhau i fyw'n annibynnol.

Wrth fabwysiadu dulliau o gynorthwyo'r teulu cyfan, neu ganolbwyntio ar ailalluogi unigolion a dysgu oddi wrth ddatblygiadau fel rhoi gofal ychwanegol yn y cartref, gwelwn fod cymorth dwys, tymor byr yn helpu unigolion a theuluoedd i adennill eu hannibyniaeth, eu sgiliau a'u hyder i ganiatáu iddynt wella'u bywydau heb ddibynnu cymaint ar wasanaethau yn y tymor hir.

Gwyddom hefyd fod angen deall ac ymateb i anghenion gofalwyr a derbynnir bod angen i bob gwasanaeth roi blaenoriaeth i hynny. Hefyd, er bod partneriaid yn paratoi ac yn cynllunio rhaglen i helpu gofalwyr, mae nifer sylweddol o ofalwyr ifanc, a gofalwyr sy'n oedolion nad yw gwasanaethau'n gwybod amdanynt. Golyga hynny nad ydynt yn gallu manteisio ar y cymorth sydd ar gael iddynt.

Mae lles pobl yn dibynnu ar eu hamgylchiadau ac nid oes modd sicrhau canlyniadau da i wahanol grwpiau yn y boblogaeth heb ystyried eu hamgylchiadau.

Os ydym am gyflawni amcanion y cynllun hwn, rhaid i gyrff weithio'n effeithiol ac yn effeithlon. Does fawr o wahanaieth gan y rhan fwayf o bobl pwy sy'n cyflenwi neu'n darparu adnoddau ar gyfer gwasanaeth. Yr hyn sy'n eu poeni yw eu bod yn cael y gwasanaeth sydd ei angen arnynt i fyw'n iach ac yn annibynnol. Er y gallwn ddangos bod gweithio mewn partneriaeth wedi bod yn fuddiol, mae rhwystrau sefydliadol a diwylliannol yn parhau i amharu ar ein gallu i ddarparu'r gwasanaethau gorau bosibl. Mae angen i ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol wneud mwy i grynhoi eu cyllidebau ac adnoddau eraill neu mae angen iddynt gomisiynu mwy o wasanaethau ar y cyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn glir wrth fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol fod yn rhaid mynd ati ar fyrder i gynyddu'r broses o integreiddio gwasanaethau, gan ganolbwyntio yn y dechrau ar bobl hŵn sydd ag anghenion cymhleth.

Y 'Bil Diwygio Lles' yw'r newid mwyaf yn y system diwygio lles ers dros 60 o flynydoedd. Mae Prifysgol Hallam, Sheffield wedi cwblhau gwaith sy'n amcangyfrif effeithiau ariannol y newidiadau ar bob ardal awdurdodau lleol. Mae eu gwaith yn awgrymu y bydd economi Sir y Fflint yn colli bron 344m y flwyddyn erbyn 2014-15, sef £452 am bob oedolyn ar gyfartaledd. Dyma'r golled fwyaf yng Ngogledd Cymru, ac eitrhio un (Wrecsam).

Bydd y Diwygiadau Lles yn cael effaith sylweddol ar rai unigolion a theuluoedd, yn enwedig y rhai a fyddai eisoes yn cael eu hystyried yn 'agored i niwed'. Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i leihau'r peryglon sydd ynghlwm wrth dlodi a digartrefedd. Mae'r cyhoedd am i'r partneriaid ddefnyddio'u dylanwad a'u hadnoddau i fynd i'r afael â phroblemau trafnidiaeth. Er bod gwaith yn mynd rhagddo, er enghraifft, i annog pobl i ddefnyddio technoleg gynorthwyol a chynlluniau teleofal a lleihau nifer y cleifion sy'n gorfod teithio i gadw apwyntiadau, rhaid gwella cysylltiadau trafnidiaeth er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu teithio i gadw apwyntiadau, i gadw cysylltiad â'u ffrindiau a'u teuluoedd ac i fanteisio ar wasanaethau a chyfloed yn y gymuned. Mae gwaith ar y gweill yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol i ystyried y posibiliadau ym maes trafnidiaeth yn y dyfodol.

Mae cynorthwyo unigolion a theuluoedd sy'n agored i niwed, sicrhau y caiff eu hanghenion eu diwallu ac y caiff eu lles ei hyrwyddo a'i wella, yn ganolog i lawer o waith partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Mae'r ymrwymiadau a wneir yma'n arwyddocaol a chânt ymateb penodol yn y tymor byr a chanolig. Fodd bynnag, bydd agweddau eraill ar ein gwaith yn parhau a byddwn yn adolygu ac yn adnewyddu ffocws y cynllun hwn er mwyn manteisio i'r eithaf ar y ffordd rydym yn gweithio gyda'n gilydd i ddiwallu anghenion ein pobl.

Dyma'r meysydd allweddol y byddwn yn rhoi sylw iddynt o dan yr is-flaenoriaethau: -

- Targedu'n hadnoddau i helpu'r mwyaf anghenus.
- Canolbwyntio ar gadw pobl yn iach ac yn annibynnol.
- Darparu mwy o wasanaethau yn y gymuned ac yng nghartrefi pobl.
- Sicrhau bod staff o fwy nag un corff yn gallu gweithio gyda'i gilydd.
- Cynorthwyo gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion.
- Darparu gwasanaethau cyngor a chymorth i helpu pobl i ddiogelu'u hincwm.
- Lleihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn ddigartref.

## Ble'r ydym ni'n awr?

Mae addasiadau i oedolion a ariennir â'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn cael eu cwblhau'n gynt, sef cyn pen 385 diwrnod ar gyfartaledd yn hytrach na'r targed ar gyfer 2012/13, sef 400 diwrnod. Mae lle i wella eto gan fod perfformiad gwasanaethau oedolion a phlant Sir y Fflint (391 diwrnod) yn parhau yn y chwartel isaf yng Nghymru yn 2012/13.

## Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth - Sir y Fflint yn 2017

Bydd ein perfformiad yn gwella a bydd Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn cael eu cwblhau'n gynt i blant ac oedolion, a bydd yn cyd-fynd â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

## Ble'r ydym ni'n awr?

Ym maes darparu grantiau a chwblhau gwaith i blant, nid ydym wedi gwneud cystal; cymerwyd 482 diwrnod, ar gyfartaledd yn 2012/13. Tra bo cyfanswm yr addasiadau sydd eu hangen gryn dipyn yn is na'r addasiadau ar gyfer oedolion, mae natur y gwaith yn debygol o gynnwys codi estyniad i eiddo a gall anghenion plant newid gan ymestyn y broses o ddyrannu'r grant.

O 2013/14 ymlaen, bydd awdurdodau lleol yn defnyddio arweiniad cenedlaethol diwygiedig i ddarparu data perfformiad cymharol. Mae data 2012/13 wedi'i gyfrifo'n ôl-weithredol drwy ddefnyddio'r arweiniad diwygiedig a dyma'r canlyniadau:

- Plant - 374 diwrnod ar gyfartaledd.
- Oedolion - 283 dirnod ar gyfartaledd.

Cyhoeddwyd yr arweiniad diwygiedig tua diwedd 2012/13 a dylai sicrhau bod modd cymharu ein perfformiad yn fwy effeithiol ag ardaloedd eraill Cymru in Wales.

O'i chymharu â gweddill Cymru, mae Sir y Fflint mewn sefyllfa gref iawn o ran nifer a chanran y rheini rydym wedi'u cynorthwyo drwy'n gwaith ail-alluogi. Yn ystod 2012/13, llwyddwyd i ailalluogi 61.6% o bobl fel nad oedd angen pecyn gofal arnynt mwyach a llwyddwyd i leihau pecyn gofal 4.1% arall. Fodd bynnag, bydd angen cymorth yn y gymuned yn ehangu wrth i'r boblogaeth heneiddio ac wrth i ragor o bobl fyw â dementia.

## Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth - Sir y Fflint yn 2017

Bydd y cymorth sylweddol yn parhau ac yn cael ei weld yn y data a fydd yn nodi nifer a chanran y rheini y byddwn yn eu cynorthwyo drwy'n gwaith ailalluogi.

Bydd y partneriaid yn cydweithredu mwy i gomisiynu lleoliadau nyrsio hirdymor i bobl â dementia, a comisiynu ar y cyd yn cynyddu.

## Ble'r ydym ni'n awr?

Yn achos pobl â dementia ac anghenion cymhleth sy'n cael Gofal Preswyl i'r Henoed Eiddil eu Meddwl, mae'r mwyafrif eisoes yn cael cymorth yn eu cartrefi am gryn dipyn o amser cyn y mae'n rhaid iddynt gael gofal preswyl.

Mae Grŵ p Gweithredu Rhanbarthol ar gyfer Teleiechyd, Teleofal a Thechnoleg Gynorthwyol wedi'i sefydlu i sicrhau dull cyson o ddarparu Gwasanaeth Teleiechyd ledled Gogledd Cymru gan integreiddio unrhyw ddatblygiadau ym maes Teleofal.

Dechreuodd cynllun arbrofol ym mis Ebrill 2013 i geisio ehangu Teleofal ac roedd y canlyniadau'n addawol. Er bod y duedd yn gyffredinol yn galonogol, canran isel o'r rhai a allai elwa ohono sy'n ei ddefnyddio.

Er mwyn gwneud y mwyaf o bosibiliadau teleiechyd i helpu cleifion i reoli eu cyflyrau eu hunain ac i leihau'r angen iddynt gael gofal heb ei gynllunio etc, bydd angen sicrhau bod y cyfarpar a'r cymorth ar gael i gleifion yn y gymuned ac ymateb i'r broses sy'n mynd rhagddi i gloriannu'r gwasanaeth o safbwynt y claf.

Ers 2011, mae nifer y rhai sy'n defnyddio cyfarpar teleofal yn y sir wedi cynyddu.

## Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth - Sir y Fflint yn 2017

Bydd rhagor o bobl yn cael eu cynorthwyo i barhau i fyw gartref ac i ddychwelyd adref yn gynt ar ôl bod yn yr ysbyty am gyfnod drwy ddefnyddio cyfarpar teleofal a theleiechyd yn fwy eang.

Bydd defnyddio'r cyfarpar yn fwy cyffredin wrth ddarparu gofal a chymorth.

Bydd strategaeth glir a phroses gyson ac effeithiol ar waith i ganiatáu i bartneriaid ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ddarparu gwasanaethau drwy eu comisiynu ar y cyd.

## Ble'r ydym ni'n awr?

Mae data'n dangos nad ydym bob amser yn gallu rhyddhau pobl o'r ysbyty cyn gynted ag y mae'n glinigol briodol gwneud hynny. Mae'r rhesymau dros hynny'n niferus ac yn amrywiol ond bob tro mae'n rhaid gohirio trosglwyddo gofal, caiff adnoddau eu gwastraffu, mae cleifion yn teimlo'n fwy dibynnol ac mae'r sefyllfa'n peri gofid ac anhwylustod iddyn nhw a'u teuluoedd/gofalwyr.

Rydym yn bwrw ymlaen â chynlluniau fel y Fframwaith Asesu Unigol i bobl hŷn ynghyd â model eiddilwch i'w ddefnyddio wrth ryddhau cleifion cyn cynnal asesiad manylach yn y cartref. Bydd Gofal Ychwanegol yn y Cartref hefyd yn helpu i osgoi gohirio trosglwyddo cleifion o'r ysbyty.

Mae gohirio trosglwyddo gofal yn faes sy'n cynhyrchu data cymhleth iawn. Mae cyrff ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd yn rhanbarthol i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r data ac i ddatblygu dulliau newydd o weithio mewn partneriaeth i helpu i osgoi gorfod gohirio trosglwyddo gofal.

## Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth - Sir y Fflint yn 2017

Bydd y gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn fwy integredig gan helpu i leihau'r nifer sy'n gorfod mynd i'r ysbyty a chartrefi gofal preswyl / nyrsio, a bydd proses ddi-dor yn caniatáu iddynt ddychwelyd adref ar ôl bod yn yr ysbyty.

Dulliau gwell o fonitro a chofnodi cynnydd.

Dechreuodd y gwasanaeth Gofal Ychwanegol yn y Cartref yn ardal y gogledd-orllewin ddiwedd yr haf 2013. Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2013, roedd 30 o gleifion wedi manteisio ar y gwasanaeth hwn. Mae cynlluniau ar y gweill i ehangu'r gwasanaeth ledled y sir.

Bydd y gwasanaeth Gofal Ychwanegol yn y Cartref wedi'i hen sefydlu, gan arwain at nifer gynyddol o bobl yn cael cymorth yn y cartref yn lle gorfod aros yn yr ysbyty.

Mae gweithwyr Gofal Cymdeithasol i bobl hŷn yn awr yn gweithio mewn tair ardal wahanol (y gogledd-ddwyrain, y gogledd-orllewin a'r de). Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ynghylch lleoli cydweithwyr yn y Gwasanaeth Iechyd yn yr un modd.

## Ble'r ydym ni'n awr?

Mae trefniadau ar waith i weithio ar y cyd ac i gyfuno adnoddau mewn nifer o feysydd gan gynnwys gofal Iechyd Meddwl a Storfeydd Offer, ond gall y partneriaid wneud llawer mwy i integreiddio gwasanaethau.

Mae'r Prosiect Dechrau'n Deg (blynyddoedd cynnar) yn enghraifft o dimau amlddisgyblaeth, amlasiantaeth yn gweithio ar y cyd mewn ardaloedd penodol.

Nid yw trefniadau comisiynu ar y cyd ar waith ar hyn o bryd rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Caiff cynlluniau datblygu'r gweithlu a chynlluniau asedau eu datblygu ar wahân gan bob partner fel arfer, a phrin yw'r cyfleoedd i weithio ar y cyd yn y cyswllt hwn. Fodd bynnag, mae rhaglenni hyfforddiant ar y cyd ar waith o fewn Dechrau'n Deg ar gyfer staff gwahanol sefydliadau.

## Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth - Sir y Fflint yn 2017

Bydd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u hintegreiddio'n well, gan arwain at:

- Gynnydd mewn trefniadau i weithio ar y cyd.
- Comisiynu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd.
- Cyfuno mwy o adnoddau.
- Gwella trefniadau i ddatblygu'r gweithlu ar y cyd ac i ddefnyddio asedau cyffredin.

Bydd y gwersi a ddysgwyd o'r prosiect Dechrau'n Deg yn arwain at ddulliau gwell o ddarparu gwasanaethau i deuluoedd sy'n agored i niwed y tu hwnt i ddalgylch Dechrau'n Deg.

---

Yn 2012/13, cynigiwyd gwasanaethau i 743 o blant drwy'r rhaglen Dechrau'n Deg. Cododd y ffigur hwn i 1078 yn 2013/14.

Yn nhymor cyntaf 2013/14, o'r 120 (53%) o blant yn ardaloedd Dechrau'n Deg a gafodd eu hasesu o ran eu datblygiad, llwyddodd 63 i gyrraedd neu ragori ar y cerrig milltir a bennwyd iddynt. Llwyddodd 50 o 89 (56%) o blant 36 mis oed, i gyrraedd neu ragori ar eu cerrig milltir.

Bydd rhaglen Dechrau'n Deg wedi ymestyn i gymunedau penodol yn y sir, gan gynyddu nifer y plant sy'n cyrraedd neu'n rhagori ar y targedau o dan eu datblygiad.

## Ble'r ydym ni'n awr?

Caiff rhaglen Dechrau'n Deg ei chyflwyno gan dimau o staff a chanddynt sgiliau amrywiol sy'n gweithio i wahanol asiantaethau. Ar hyn o bryd mae trefniadau i staff y gwasanaeth iechyd, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol weithio a hyfforddi ar y cyd. Mae cydleoli gwasanaethau a gwaith amlddisgyblaeth yn fanteisiol i staff ac i'r teuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Mae'r Adroddiad Gwerthuso Effaith Dechrau'n Deg yn nodi bod teuluoedd yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn ymwneud mwy â gwasanaethau i deuluoedd na'r rheini'r tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg, a bod ganddynt fwy o ffydd ynddynt na'r rheini a oedd yn byw mewn ardaloedd lle nad oedd y rhaglen yn weithredol.

## Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth - Sir y Fflint yn 2017

Mae Adroddiad Cenedlaethol yn Gwerthuso Effaith Dechrau'n Deg 2013 yn cynnig gwaelodlin ar gyfer mesur cynnydd ac mae'n nodi'r canlyniadau a ganlyn:

Canlyniadau i rieni

- Gwella ymddygiad, sgiliau a hyder rhieni.
- Gwella cymorth cymdeithasol ac iechyd meddwl.

Canlyniadau i blant

- Gwella iaith a datblygiad gwybyddol.
- Gwella datblygiad cymdeithasol ac emosiynol.

---

Mae gan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf 18 o brosiectau strategol a chanddynt dargedau cytundebol penodol. Mae'r Tîm o Amgylch y Teulu yn gweithredu fel gwasanaeth cydlynu sy'n ymwneud â holl brosiectau Teuluoedd yn Gyntaf. Mae'r tîm hwn wedi helpu 108 o deuluoedd yn ystod y flwyddyn gyntaf ac mae 15 o deuluoedd eraill yn aros i gael eu cyfeirio.

Ehangu rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf (os bydd arian ar gael ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2014 a 2017).

Ar sail y rhagolygon presennol ar gyfer darparu gwasanaethau a gallu staff, dylid gweld cynnydd o rhwng 25% a 35% erbyn 2017.

---

Yn ôl Cyfrifiad 2011, bu cynnydd o 7% yn nifer y gofalwyr di-dâl yn y sir. Roedd 16,451 yn 2001 a 17,643 yn 2011.

Galw cynyddol am gymorth gan ofalwyr.

Gofalwyr yn cyfrannu mwy at wella gwasanaethau i Ofalwyr.

## Ble'r ydym ni'n awr?

| | 2011/12 | 2012/13 |
|---|---|---|
| Gofalwyr y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwybod amdanynt | 1,704 | 1,484 |
| n / % y cynigiwyd asesiad iddynt | 1,588<br>93.2% | 1,363<br>92.1% |
| n / % a gafodd eu hasesu | 673<br>42.4% | 525<br>38.1% |
| n / % a gafodd wasanaeth | 531<br>78.9% | 378<br>72% |

Disgwylir y bydd nifer y gofalwyr sy'n gofyn am gymorth yn parhau i gynyddu wrth i'r gwasanaethau newid, wrth i'r nifer sy'n byw â chyflwr cronig a dementia gynyddu, wrth roi'r diwygiadau lles ar waith ac wrth i bobl ddod yn fwy ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael a phwysigrwydd dod i wybod pwy yw'r gofalwyr.

Mae gwaith ar y gweill i ystyried sut orau i ddiwallu anghenion pobl ifanc sy'n ofalwyr a brodyr a chwiorydd sy'n ofalwyr.

Mae'r Diwygiadau Lles wedi arwain at newidiadau sydd wedi effeithio ar wasanaethau Uned Hawliau Lles y Cyngor a gwelwyd cynnydd o 50% yn y galw am wasanaethau o'i gymharu â chyfnod tebyg o rhwng mis Ebrill a Rhagfyr 2013:

Cafodd pobl gymorth gan Uned Hawliau Lles y Cyngor i hawlio Nawdd Cymdeithasol a Chredydau Treth ychwanegol, ac yn dilyn hynny:

- cafodd gwerth £1900,000 o gredydau eu talu.

## Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth - Sir y Fflint yn 2017

Bydd rhwydwaith cydgysylltiedig a chost-effeithiol o gyngor a chymorth ar gael yn y sir:

- lleihau digartrefedd
- lleihau dyledion misol
- gwneud yn fawr o incwm personol

# Ble'r ydym ni'n awr?

- cafodd 140 o bobl gymorth i herio penderfyniadau i roi llai o fudd-dal iddynt.
- cafodd 49 o bobl hyfforddiant ym maes rheoli arian.
- cafodd 39 o bobl helpu i symud i gartref mwy fforddiadwy.

Mae Cyngor ar Bopeth hefyd yn dweud bod 110 o gleientiaid ar eu colled yn ariannol, sef cyfanswm o £103,000 yn ystod 2013/14.

Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill (Yr Adran Gwaith a Phensiynau a CAB) i reoli'r broses o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol fel rhan o gynllun arbrofol. Yn ôl arolwg CAB o'i gleientiaid ym mis Medi 2013:

- nid oedd 86% wedi cael digon o wybodaeth am y newidiadau.
- nid oedd 85% yn barod i ymdopi ag un taliad misol.
- nid oedd 55% yn barod o ran technoleg (mynediad a hyder).
- byddai'n well gan 70% i'w rhent gael ei dalu'n uniongyrchol i'w landlord.
- nid oedd cyfrif banc gan 13%.

Mae Canolfan Gydweithredol Cymru, Cyngor Sir y Fflint ac Undeb Credyd Gogledd Cymru yn datblygu cynllun peilot i annog tenantiaid (yn y sector preifat a'r sector tai cymdeithasol) i agor cyfrifon rhent o fewn yr Undeb Credyd i geisio mynd i'r afael â digartrefedd drwy'r prosiect Cynhwysiant Ariannol.

# Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth - Sir y Fflint yn 2017

Bydd rhwydwaith cydgysylltiedig a chost-effeithiol o gyngor a chymorth ar gael yn y sir:

- lleihau digartrefedd.
- lleihau dyledion misol.
- gwneud yn fawr o incwm personol.

Bydd 'un porth' ar gael i bobl gael cyngor a chymorth er mwyn:

- osgoi dyblygu gwaith ac osgoi gwastraffu adnoddau drwy gyfeirio pobl yn amhriodol, etc.
- darparu cyngor cyson a chynhwysfawr.

Bydd yn haws i deuluoedd sy'n agored i niwed gael cyngor a chymorth yn lleol ac yn rhanbarthol.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar leihau digartrefedd.

## Ble'r ydym ni'n awr?

Mae un 'porth' ar gyfer rhoi cyngor  a chymorth yn cael ei sefydlu mewn partneriaeth â'r Cyngor a Chyngor ar Bopeth; nydd hyn yn ei gwneud yn haws ymyrryd ar unwaith i roi cymorth neu i gyfeirio pobl at yr asiantaethau priodol.

# Beth Rydym Am Ei Wneud

| Yn Sir y Fflint, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i wneud yr isod: | Partneriaid Allweddol: Y Prif Bartner / Partneri Ategol | | | | | | | Pa un o'r is-flaenoriaethau fydd y gwaith hwn yn cyfrannu atynt? | | | Amserlen | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr | Undebau Credyd | Yr Adran Gwaith a Phensiynau - Gogledd a Chanolbarth Cymru | Cyngor Sir y Fflint | Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint | Y Sector Annibynnol | Darparwyr gwasanaethau yn y trydydd sector | Sicrhau bod dulliau cydgysylltiedig ac integredig yn cael eu defnyddio i gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau | Hyrwyddo lles a gallu pobl i fyw'n annibynnol | Ymateb i'r diwygiadau lles a rheoli'u heffaith | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
| Gwella sut rydym yn cynllunio'n barhaus i ryddhau cleifion o'r ysbyty a sicrhau bod trefniadau ar waith i'w rhyddhau'n ddiogel ac yn gyflym. | Y Prif Bartner | | | Y Prif Bartner | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | ✓ | ✓ | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Cyflwyno a darparu gwasanaeth Gofal Ychwanegol yn y Cartref ledled y sir. | Y Prif Bartner | | | Y Prif Bartner | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | ✓ | ✓ | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Cydleoli timau iechyd a gofal cymdeithasol yn nhair ardal y sir. | Y Prif Bartner | | | Y Prif Bartner | | | | ✓ | ✓ | | ✗ | ✗ | | | |
| Canolbwyntio ar gadw pobl yn iach ac yn annibynnol drwy atal, ymyrryd yn gynnar, ail-alluogi ac adfer. | Y Prif Bartner | Partner Ategol | | Y Prif Bartner | Partner Ategol | | Partner Ategol | ✓ | ✓ | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Rhoi mwy o gefnogaeth i bobl i'w helpu i reoli eu cyflyrau. | Y Prif Bartner | | | Partner Ategol | Partner Ategol | | Partner Ategol | ✓ | ✓ | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Cyfrannu at waith grŵp rhanbarthol i ehangu'r defnydd o systemau teleiechyd, teleofal a thechnoleg gynorthwyol. | Y Prif Bartner | | | Y Prif Bartner | | | Partner Ategol | ✓ | ✓ | | ✗ | ✗ | ✗ | | |

# Beth Rydym Am Ei Wneud

| Yn Sir y Fflint, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i wneud yr isod: | Partneriaid Allweddol (Y Prif Bartner / Partneri Ategol) | | | | | | | Pa un o'r is-flaenoriaethau fydd y gwaith hwn yn cyfrannu atynt? | | | Amserlen | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr | Undebau Credyd | Yr Adran Gwaith a Phensiynau - Gogledd a Chanolbarth Cymru | Cyngor Sir y Fflint | Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint | Y Sector Annibynnol | Darparwyr gwasanaethau yn y trydydd sector | Sicrhau bod dulliau cydgysylltiedig ac integredig yn cael eu defnyddio i gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau | Hyrwyddo lles a gallu pobl i fyw'n annibynnol | Ymateb i'r diwygiadau lles a rheoli'u heffaith | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
| Sicrhau bod rhagor o bobl yn cael cymhorthion bach, cyfarpar ac addasiadau mawr i'w helpu i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi. | Partner Ategol | | | Prif Bartner | | | | ✓ | ✓ | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Parhau i roi cymorth i bobl ifanc ac oedolion sy'n ofalwyr, gan ganolbwyntio ar eu hanghenion a sicrhau eu bod yn gallu parhau i ofalu | Prif Bartner | | | Prif Bartner | Partner Ategol | | Prif Bartner | ✓ | | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Chwilio am gyfleoedd i weithio'n benodol gydag oedolion ifanc sy'n ofalwyr. | Partner Ategol | | | Partner Ategol | Partner Ategol | | Prif Bartner | ✓ | | | ✗ | ✗ | | | |
| Sicrhau bod ein gweithlu'n gallu nodi ac ymateb i anghenion unigolion, teuluoedd a chymunedau. | Prif Bartner | | | Prif Bartner | Partner Ategol | Partner Ategol | Partner Ategol | ✓ | ✓ | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Rhannu gwybodaeth i nodi unigolion a theuluoedd sydd fwyaf tebygol o golli'u hannibyniaeth drwy fynd ati i Fapio Teuluoedd sy'n Agored i Niwed. | Partner Ategol | | Partner Ategol | Prif Bartner | Partner Ategol | | Partner Ategol | ✓ | | | | ✗ | | ✗ | |

# Beth Rydym Am Ei Wneud

| Yn Sir y Fflint, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i wneud yr isod: | Partneriaid Allweddol — Y Prif Bartner / Partneri Ategol: Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr | Undebau Credyd | Yr Adran Gwaith a Phensiynau - Gogledd a Chanolbarth Cymru | Cyngor Sir y Fflint | Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint | Y Sector Annibynnol | Darparwyr gwasanaethau yn y trydydd sector | Pa un o'r is-flaenoriaethau fydd y gwaith hwn yn cyfrannu atynt?: Sicrhau bod dulliau cydgysylltiedig ac integredig yn cael eu defnyddio i gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau | Hyrwyddo lles a gallu pobl i fyw'n annibynnol | Ymateb i'r diwygiadau lles a rheoli'u heffaith | Amserlen: 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweithredu a chyflenwi'r gwasanaeth Cymorth Integredig i Deuluoedd. | Partner Ategol | | | Prif Bartner | | | | ✓ | ✓ | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Cyflenwi ac ehangu prosiect Dechrau'n Deg mewn cymunedau penodol yn Sir y Fflint. | Prif Bartner | | | Prif Bartner | | Partner Ategol | Partner Ategol | ✓ | ✓ | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | |
| Datblygu a gweithredu'r Fframwaith Gwasanaethau Lleol yn barod ar gyfer Credyd Cynhwysol. | | | Prif Bartner | Prif Bartner | | | Partner Ategol | | | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Cyflwyno mesurau i helpu teuluoedd y mae'r diwygiadau lles yn effeithio arnynt drwy eu dysgu i drin arian ac i gael credyd fforddiadwy. | | Partner Ategol | | Prif Bartner | | | Partner Ategol | | | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Cynnig gwasanaethau cynghori a chefnogi drwy un porth. | | | | Prif Bartner | | | Prif Bartner | | | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |

## **Symud ymlaen** (materion y bydd angen eu hystyried mewn cynlluniau cyflenwi yn y dyfodol):

Er y bwriedir i flaenoriaeth 3 fod yn berthnasol i'r boblogaeth gyfan, mae'r meysydd gwaith allweddol yn canolbwyntio ar bobl hŷn ar hyn o bryd. Rydym yn cydnabod y bydd hyn, dros oes y Cynllun Integredig Sengl, yn newid i adlewyrchu blaenoriaethau/cyfleoedd cyfredol.

Yn ei Grynodeb Diwedd Strategaeth, mae'r Bwrdd Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yn nodi nifer o negeseuon allweddol i'w datblygu yn y dyfodol, sef:

Mae angen parhau i weithredu Cynllun Gweithredu Gogledd Cymru ar gyfer Rheoli Tybaco sy'n cynnwys camau i:

- Wneud tybaco'n llai gweledol.
- Cynorthwyo ac annog rhagor o bobl i fanteisio ar gynlluniau i'w helpu i roi'r gorau i ysmygu.
- Targedu'r grwpiau hynny sy'n defnyddio tybaco fwyaf.

Dylid gweithredu argymhellion Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â sigaréts electronig. Mae hyn yn cynnwys eu gwahardd yn y gweithle, ysgolion a llefydd cyhoeddus. Ddechrau 2014, caiff canllawiau ar gyfer polisïau ysgol eu diweddaru i adlewyrchu'r argymhelliad hwn.

Cwblhawyd asesiad o anghenion yn ddiweddar a dylid defnyddio hwn, ynghyd â'r Egwyddorion Comisiynu yn yr Asesiad o Anghenion Camddefnyddio Sylweddau a'r Strategaeth Comisiynu Amlinellol, a ddatblygwyd gan Fwrdd Cynllunio Ardal – Camddefnyddio Sylweddau, wrth ddatgomisiynu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau drwy ogledd Cymru ac wrth gomisiynu gwasanaethau yn y dyfodol. Un neges allweddol yn y ddogfen yw bod angen mwy o bwyslais ar oryfed alcohol mewn ffordd beryglus a niweidiol er mwyn atal niwed mwy hirdymor i iechyd.

Dylai gwaith sy'n mynd rhagddo i leihau'r niwed y mae alcohol yn ei achosi gyfeirio at y cysylltiad rhwng yfed alcohol a chynnydd mewn ymddygiad rhywiol peryglus, a dylai ymateb i'r cysylltiad hwnnw.

Mae angen rhoi mwy o bwyslais ar gynorthwyo unigolion sy'n defnyddio alcohol i ymdopi â salwch meddwl.

Mae llawer o'r gweithgareddau sy'n mynd rhagddynt yn y gymuned i atal gordewdra yn weithgareddau tymor byr, a rhaid defnyddio'r arian o fewn cyfnod penodol. Wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau yn y dyfodol, rhaid canolbwyntio ar annog pobl i fyw yn iach ar hyd eu hoes, gan gynnwys hybu bwydo ar y fron a diddyfnu'n briodol yn ogystal â hybu ffordd o fyw egnïol a diet iach a chytbwys.

## **Symud ymlaen** (materion y bydd angen eu hystyried mewn cynlluniau cyflenwi yn y dyfodol):

Mae prinder gwasanaethau rheoli pwysau yn y gymuned, yn enwedig i deuluoedd â phlant. Mae angen canolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar i leihau canran y plant sydd dros eu pwysau neu'n ordew cyn iddynt ddechrau'r ysgol. Dyma'r achos ym mhob un o siroedd y Gogledd. Mae dull rhanbarthol o ymateb i broblemau gordewdra, ymhlith plant a phobl o bob oed, yn cael ei ddatblygu a chaiff argymhellion eu cyflwyno i'r holl bartneriaid o ran y camau y dylid eu cymryd.

Mae angen dull dibynadwy o weithio mewn partneriaeth er mwyn rhoi'r model a ddatblygwyd i gynnig gwasanaeth i bobl sy'n cael eu hanafu drwy syrthio. Yn ogystal â deall a lleihau'r ffactorau sy'n ei gwneud yn fwy tebygol y bydd rhywun  yn syrthio, mae angen ehangu'r gwaith hwn a deall a lleihau'r ffactorau sy'n cyfrannu at bob mathau o anafiadau, p'un ai'n fwriadol neu'n anfwriadol, i bobl o bob oed.

Strategaeth Llywodraeth Cymru i wella iechyd meddwl yw 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' a'r bwriad yw darparu triniaeth, gofal a chymorth effeithiol i bobl o bob oed sydd â phroblemau iechyd meddwl. Mae' n manylu ar y camau y dylai awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'r trydydd sector eu cymryd a dylai barhau'n rhan bwysig o waith yr holl bartneriaid dros y blynyddoedd nesaf. Cafwyd adolygiad cenedlaethol, " Siarada â Mi" (sef cynllun cenedlaethol i atal hunanladdiad a hunan-niwed) a gwnaed nifer o argymhellion arwyddocaol. Bydd angen ymateb yn lleol i'r negeseuon allweddol a amlygwyd gan y gwaith hwnnw.

Mae effaith amgylchiadau cymdeithasol ar iechyd yn cael ei gydnabod fwyfwy. Mae unigrwydd cymdeithasol yn effeithio ar ansawdd bywyd a  lles unigolion, gan amharu ar eu hiechyd a chan gynyddu'r galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae pobl hŵn yn aml iawn yn dioddef oherwydd unigrwydd wrth iddynt golli ffrindiau a pherthnasau, wrth iddi fynd yn anoddach iddynt symud ac wrth i'w hincwm ostwng. Wrth i gyfran y bobl hŵn gynyddu yn y boblogaeth, bydd yn gynyddol bwysig sicrhau eu bod yn 'heneiddio'n dda'".

Yn y dyfodol, bydd angen parhau i adolygu a gwerthuso gwaith y Gwasanaeth Pontio i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion  ac yn ymateb i'r gwaith sydd ar y gweill yn genedlaethol i ddatblygu Cynlluniau Datblygu Unigol.

Prin yw'r gweithgareddau sydd ar gael yn y gymuned i oedolion ag anableddau a dylid mynd i'r afael â'r prinder hwn i hybu eu hannibyniaeth a'u lles.

Dylid parhau i ystyried gweithgareddau comisiynu a defnyddio cynlluniau buddsoddi i arbed er mwyn darparu gwasanaethau arbenigol i bobl ifanc ac oedolion ag anableddau yn y sir neu'n agosach at adref.

## Symud ymlaen (materion y bydd angen eu hystyried mewn cynlluniau cyflenwi yn y dyfodol):

Nodwyd nifer o flaenoriaethau tymor byr gan y Grŵp Strategaeth Gofalwyr ar sail y camau a nodwyd yn y Strategaeth Gomisiynu bresennol:

- Ehangu'r Rhwydwaith Ymgynghori â Gofalwyr – canolbwyntio ar rieni/gofalwyr neu'r plentyn/person ag awtistiaeth.
- Cymorth i ofalwyr ifanc sydd â brodyr neu chwiorydd ag awtistiaeth.
- Pob asiantaeth i ymdrechu i gyrraedd gofalwyr o gefndiroedd Du a Lleiafrifoedd Ethnig.
- Gwasanaethau pontio i sicrhau bod gofalwyr, sy'n cynorthwyo pobl drwy'r cyfnod pontio yn cael gwybodaeth ddigonol a phriodol.
- Sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi presennol y gwasanaethau cymdeithasol yn cynnwys staff, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.
- Canolbwyntio ar roi gwybod i staff rheng flaen am wasanaethau sydd ar gael i gynorthwyo gofalwyr.

**Negeseuon sy'n ymwneud â'r agenda iechyd, gofal cymdeithasol a lles ehangach:**

Mae cydsyniad a chydnabyddiaeth gynyddol y bydd angen canolbwyntio ar yr hyn y mae angen i sefydliadau ei wneud i greu'r amodau a'r cyfleoedd sy'n arwain at "iechyd da" a hefyd ar rôl yr unigolyn yn y broses o wella iechyd. Dylai'r neges hon ynglŵn â chyfrifoldeb dros iechyd personol ac iechyd pobl eraill, ynghyd â'r angen i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i hwyluso hynny, ganolbwyntio ar ddatblygiadau yn y dyfodol. Dylid cynnwys anafiadau anfwriadol fel maes allweddol i weithio arno yn y dyfodol.

Yn ei adroddiad yn 2013, cyfeiriodd Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd at fanteision ystyried ac adeiladu ar yr asedau sydd gan unigolion a chymunedau ac a allai hybu iechyd. Gallai'r "ffactorau amddiffynnol" hyn wella ansawdd bywyd ac ymestyn oes pobl drwy ganolbwyntio ar yr adnoddau sy'n gallu grymuso pobl a'u hannog i gydweithredu gan gyd-nerthu unigolion a chymunedau. I lawer, bydd eu cartrefi a'u hannibyniaeth yn asedau allweddol. Felly, yn y dyfodol, y flaenoriaeth i unigolion , teuluoedd a darparwyr gwasanaethau fydd sicrhau y gall pobl aros yn eu cartrefu eu hunain pan fo hynny'n bosibl.

Os na all pobl aros yn eu cartrefi eu hunain, rhaid cydnabod sut y gall symud i lety â chymorth neu ofal preswyl effeithio ar y berthynas â'r teulu a rhwydweithiau cymdeithasol. Mae'r gallu i ddatblygu a chynnal perthynas ystyrlon ag eraill yn dyngedfennol i iechyd ac mae tystiolaeth gynyddol i ddangos cysylltiad rhwng iechyd corfforol a meddyliol gwael a marwolaeth gynnar.

**Mae'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn cynnal adolygiad ar Ddiwedd Cynllun i gynhyrchu crynodeb o'r hyn a gyflawnwyd, y negeseuon allweddol etc a bydd hon hefyd yn ddogfen bwysig wrth nodi blaenoriaethau yn y dyfodol.**

# Beth yw:-

**Addasiadau** - Newidiadau mewn cartref i ganiatáu i bobl fyw mor annibynnol â phosib.

**Technoleg gynorthwyol** - Cyfres o ddyfeisiau neu addasiadau i offer sydd, er enghraifft, yn helpu pobl ag anableddau i gyflawni tasgau a fyddai, fel arall, yn anodd iddynt.

**Cynlluniau comisiynu** - Sicrhau bod gofal a gaiff ei brynu neu ei  gomisiynu'n ateb y galw ac yn diwallu anghenion defnyddwyr.

**Gohirio trosglwyddo gofal** - Claf mewn ysbyty sy'n barod i symud ymlaen i'r cam nesaf ond sy'n cael ei atal rhag gwneud hynny. Mae'n bwysig bod cleifion yn cael eu trosglwyddo a'u rhyddhau'n amserol i sicrhau bod y GIG yn rheoli argyfyngau'n effeithiol. Bydd y trefniadau i drosglwyddo claf i leoliad gofal mwy addas (naill ai o fewn y GIG neu wrth ei rhyddhau o ofal y GIG) yn amrywio'n ôl anghenion pob claf ond gallant fod yn gymhleth ac weithiau, gallant arwain at oedi.

**Gofal Ychwanegol yn y Cartref** - Gofal ychwanegol i gleifion yn eu cartrefi'u hunain. Hebddo, byddai'n rhaid i'r cleifion hyn fynd i ysbyty bro neu ysbyty aciwt. I gleifion sydd eisoes yn yr ysbyty, gall Gofal Ychwanegol hefyd helpu i ryddhau rhai ohonynt yn gynt.

**Teuluoedd yn Gyntaf** - Rhaglen i wella canlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd gyda'r pwyslais ar atal ac ymyrryd yn gynnar yn enwedig i'r rheini sy'n byw mewn tlodi.

**Dechrau'n Deg** - Cymorth dwys i deuluoedd a phlant 0-4 oed sy'n byw mewn rhai ardaloedd daearyddol penodol.

**Cymorth Integredig i Deuluoedd** - Cymorth am gyfnod penodol i deuluoedd lle mae'r rhieni'n camddefnyddio sylweddau.

**Ailalluogi** - Gofal cymdeithasol dwys am gyfnod byr i helpu unigolion i adennill sgiliau a hyder ac i fyw mor annibynnol â phosibl.

**Datganiad uchelgais** - Dogfen a baratowyd ar gyfer pob un o bedair blaenoriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac a gytunwyd gan y Bwrdd. Mae'r ddogfen hon yn rhoi darlun cyffredinol o'r hyn y mae'r Bwrdd am ei gyflawni, yr hyn y mae am ei newid a'r rhesymau dros hynny.

**Teleofal / Teleiechyd** - Darparu gofal drwy ddefnyddio dyfeisiau telathrebu yn y cartref.

**Gwasanaeth pontio** - Gwasanaeth penodol i blant a phobl ifanc ag anableddau i'w cynorthwyo wrth iddynt dyfu'n oedolion ifanc.

**Diwygiadau lles** - Amrywiaeth o fesurau sy'n cael eu cyflwyno gan y Llywodraeth ganolog i newid y system budd-daliadau.

## Dogfennau perthnasol eraill (hyperddolenni):

- Datganiad Uchelgais ar gyfer maes blaenoriaeth
- Adroddiadau cynnydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar gyfer Blaenoriaeth 3
- Cynllun Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol
- Cynlluniau Gweithredu Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Cynllun Gwella Cyngor Sir y Fflint 2013-14
- Y Mesur Gofalwyr - http://www.carersuk.org/policy-wales/policy-briefings-wales/item/2540-carers-strategies-wales-measure-final-regulations-and-guidance-policy-briefing-march-2012
- Diwygiadau Lles Canolog - http://cymru.gov.uk/topics/people-and-communities/welfare-reform-in-wales/?skip=1&lang=cy
- Teuluoedd yn Gyntaf - http://cymru.gov.uk/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/familiesfirst/?skip=1&lang=cy
- Dechrau'n Deg - http://cymru.gov.uk/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/flyingstart/?lang=en
- Cymunedau'n Gyntaf - http://cymru.gov.uk/topics/people-and-communities/communities/communitiesfirst/?lang=en

# Blaenoriaeth 4: Arferion amgylcheddol sefydliadau



Carl Longland - Cyngor Sir y Fflint

| Is -flaenoriaethau | Sicrhau ein bod yn lleihau'n ôl-troed carbon |
|---|---|
| | Sicrhau y gall ein cynlluniau busnes ymateb i'r newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol |

## Pam mae hyn yn flaenoriaeth?

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol am sicrhau bod Sir y Fflint yn parhau i fod yn lle glân, gwyrdd ac iach i'r rhai sy'n byw yma, i'r rhai sy'n ymweld â'r sir ac i fusnesau. Mae gan Sir y Fflint amgylchedd rhyfeddol o amrywiol a record ragorol o ofalu amdano a'i gynnal. Fodd bynnag nid yw'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol am laesu dwylo, a bydd yn ymdrechu i leihau ei allyriadau carbon a pharatoi cynlluniau i helpu'r ardal i wrthsefyll effeithiau'r newidiadau yn yr hinsawdd.

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol Cymru i ofalu am les eu cymunedau yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn amgylcheddol. Mae Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yn nodi bod holl gyrff cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac am baratoi cynlluniau i ymaddasu i hinsawdd sy'n newid. Mae Rhan 4 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gyflwyno adroddiad cynnydd ar eu mesurau i ymaddasu er mwyn lleihau'r effeithiau ar y sefydliadau a'u cymunedau.

Ymateb i adolygiad Stern (2006) oedd Rhan 4 o'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd. Roedd yr adolygiad yn cynnwys dadansoddiad o oblygiadau economaidd y niwed yn yr hinsawdd. Daeth i'r casgliad mai dim ond 1% o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth y flwyddyn fyddai'n gost o gymryd camau i leihau peryglon y newid yn yr hinsawdd a'i bod yn hanfodol ac yn gost effeithiol cymryd y camau hynny.

I baratoi ar gyfer Rhan 4 o'r Ddeddf, dewiswyd Cyngor Sir y Fflint fel rhan o brosiect yn dwyn y teitl Newid Hinsawdd, Newid Lleoedd. Nod y prosiect hwn oedd archwilio cynlluniau i ymaddasu a gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yn Sir y Fflint. Mae'r Gwasanaethau Lleol wedi cytuno i nodi ar y cyd beth yw'r peryglon mwyaf ac i baratoi cynllun gweithredu i nodi ffactorau rhyngddibynnol a chanlyniadau digwyddiadau sy'n gysylltiedig â thywydd eithriadol ar bartneriaid y Bwrdd.

Mae partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau lleol a chyrff eraill yn cydweithio i fynd i'r afael â phroblemau allyriadau carbon a chael hyd i atebion i broblemau'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r partneriaid wedi cytuno ar raglen uchelgeisiol i leihau allyriadau carbon wrth i'r partneriaid weithio tuag at darged cyffredin. Mae'r partneriaid a chyrff eraill hefyd yn nodi'r problemau sy'n codi wrth i'r hinsawdd newid yn awr ac yn y dyfodol. Rydym yn sylweddoli y gallwn, drwy weithio gyda'n gilydd, gymryd camau ataliol i leihau effaith y newid yn yr hinsawdd.

Ein nod, drwy barhau i weithio gyda'n gilydd yw:

**Sicrhau gostyngiad o 80% mewn allyriadau carbon erbyn 2050 a gostyngiad o 3% o leiaf o'r naill flwyddyn i'r llall ar gyfer eiddo annomestig.**
Cytunodd partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i fabwysiadu gwahanol ddulliau o ymdrin ag allyriadau carbon. Bydd pob partner yn cyfrannu at leihau allyriadau carbon gan gyfrannu at y targed cyffredin. Mae hyn yn arfer da am nifer o resymau:

- Mae allyriadau carbon yn cyfrannu at y newid yn yr hinsawdd sydd, yn ei dro, yn creu digwyddiadau sy'n gysylltiedig â thywydd eithafol sy'n creu problemau.
- Mae costau ynni'n codi'n gyson a, drwy ddefnyddio llai o ynni, gallwn leihau allyriadau a helpu i leihau costau ynni, neu eu cadw'n sefydlog.
- Treth ar yr ynni a ddefnyddir yw'r Ymrwymiad i Leihau Carbon. Mae hyn yn gost ychwanegol ac mae'r dreth hon yn parhau i godi.

Deall sut y mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar ein cymunedau, amgylcheddau gwaith, ffordd o fyw a lles, a pharatoi ar gyfer hynny:

- Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn cytuno bod yr hinsawdd yn newid ac yn deall bod angen archwilio'r hyn y mae angen ei wneud i ddiogelu cymunedau Sir y Fflint rhag effeithiau tywydd eithriadol.
- Mae'r dystiolaeth leol yn dangos ei bod yn debygol y bydd misoedd yr haf yn boethach yn y dyfodol, y bydd misoedd y gaeaf yn fwynach ac y bydd cynnydd mewn llifogydd, stormydd/gwyntoedd cryfion. I baratoi ar gyfer hyn, mae'r Bwrdd yn awyddus i gael i hyd i atebion lleol i ddiogelu cymunedau sy'n debygol o ddioddef fwyaf oherwydd hyn.

Dyma'r amcanion wrth baratoi ar gyfer effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar ein cymunedau:

- Cryfhau gallu datblygiadau a seilwaith i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.
- Hyrwyddo datblygiadau a chynlluniau seilwaith newydd sydd wedi'u cynllunio, eu lleoli a'u hadeiladu i ymdopi â'r hinsawdd.
- Lleihau anghydraddoldeb cymdeithasol gan gynnwys ym maes iechyd.
- Hybu cynlluniau i ymaddasu i'r amgylchedd naturiol.
- Cynorthwyo'n holl bartneriaid i gynnwys cynlluniau newid hinsawdd fel rhan annatod o'u cylch cynllunio busnes.
- Paratoi busnesau a chymunedau ar gyfer hinsawdd sy'n newid.

## Ble'r ydym ni'n awr?

Mae'r cynnydd hyd yma'n cynnwys:

**Sicrhau gostyngiad o 80% mewn allyriadau carbon erbyn 2050 a gostyngiad o 3% o'r naill flwyddyn i'r llall ar gyfer eiddo annomestig:**

- Buddsoddi i arbed. Mae hyn yn cyfeirio at wella deunyddiau adeiladau ac effeithlonrwydd systemau gwresogi i gynyddu oes yr adeilad ac i'w helpu i ddefnyddio ynni'n fwy effeithiol. Gall y math hwn o waith gynnwys inswleiddio, newid systemau goleuo, newid paneli rheoli a mecanweithiau ar systemau gwresogi.
- Lle bo hynny'n ymarferol, gosodwyd systemau sy'n defnyddio technoleg ynni adnewyddadwy. Er bod y rhain yn ddrutach i'w gosod e.e. tyrbinau gwynt neu baneli solar/PV, yn y pen draw, byddant yn lleihau costau a dibyniaeth ar gyflenwadau ynni traddodiadol.
- Ystyriwyd cynlluniau adeiladu newydd yn enwedig wrth godi ysgolion, ac ystyrir yr holl bosibiliadau ar gyfer lleihau ynni a gwella systemau cynnal a chadw wrth ailwampio adeiladau.
- Sefydlwyd system monitro ac adrodd chwarterol sy'n nodi cynnydd. Mae'r tabl drosodd yn dangos y cynnydd a wnaed o'i gymharu â'r targed. Gwelir bod y targed o sicrhau gostyngiad o 3% wedi'i gyrraedd ym mhob blwyddyn heblaw 2 ers 2007/08.
- Er bod pob ymdrech wedi'i wneud i gyrraedd y targed hwn, mae rhai amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth ni e.e. bydd eira a chyfnodau o dywydd oer yn effeithio ar ein perfformiad.

## Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth - Sir y Fflint yn 2017

Caiff y targed o sicrhau gostyngiad o 3% o'r naill flwyddyn i'r llall ei gyrraedd drwy broses o resymoli asedau a drwy sicrhau bod defnyddio llai o ynni'n ganolog i benderfyniadau ynghylch defnyddio adeiladau ac oes adeiladau. Bydd hyn yn arwain at ostyngiad mewn allyriadau tŷ gwydr niweidiol sy'n cyfrannu at y newid yn yr hinsawdd fyd-eang.

# Ble'r ydym ni'n awr?

| Blwyddyn | CO2 gwirioneddol | Cyfanswm blynyddol CO2 wedi'i addasu i ystyried y tywydd | Newid canrannol o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen | Newid canrannol o'r naill flwyddyn i'r llall |
|---|---|---|---|---|
| **2007/08 Blwyddyn sylfaen Co2 =** | **22,655,934** | | | |
| 2008/09 = | 23,983,507 | 22,856,344 | Cynnydd o 0.88% | Cynnydd o 0.88% |
| 2009/10 = | 23,873,021 | 22,167,577 | Gostyngiad o 2.16% | Gostyngiad o 3.04% |
| 2010/11 = | 24,476,745 | 22,703,359 | Cynnydd o 0.21% | Cynnydd o 2.42% |
| 2011/12 = | 22,363,726 | 21,960,726 | Gostyngiad o 3.07% | Gostyngiad o 3.28% |
| 2012/13 = | 23,832,065 | 20,789,458 | Gostyngiad o 8.24% | Gostyngiad o 5.33% |

**Deall sut y mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar ein cymunedau, amgylcheddau gwaith, ffordd o fyw a lles, a pharatoi ar gyfer hynny.-** Nid oes glasbrint ar gyfer ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd ac nid oes modd dangos pryd y bydd cynlluniau ymaddasu wedi'u cwblhau. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn tueddu i ymaddasu drwy gynllunio a rhagweld, drwy asesu'r hyn y bydd y newid yn yr hinsawdd yn ei olygu iddyn nhw, a drwy feithrin gallu i ymaddasu sy'n ymatebol a hyblyg yn wyneb ansicrwydd.

# Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth - Sir y Fflint yn 2017

Bydd y Cynllun Ymaddasu'n cynnwys adrannau'n ymwneud â seilwaith ac asedau, a bydd rhaglen i fynd i'r afael â'r peryglon eraill wedi'i chwblhau erbyn mis Mehefin 2014.

## Ble'r ydym ni'n awr?

Bydd y pwyntiau isod yn cyfrannu at y Cynllun Ymaddasu, sy'n ofynnol yn ôl Rhan 4 o'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd. Rhaid i gyrff yn y sector cyhoeddus baratoi cynllun a bydd yn rhaid iddynt gyflwyno adroddiadau cynnydd i Lywodraeth Cymru.

- Nodwyd pump o beryglon strategol cyffredin o ran digwyddiadau sy'n gysylltiedig â thywydd eithafol - seilwaith, adnoddau naturiol, yr economi, ein cymunedau a'n cynlluniau a'n strategaethau. Mae hyn wedi'i seilio ar waith ymchwil i ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â thywydd eithafol dros y 5 mlynedd diwethaf.

- Sefydlwyd fforymau i ddechrau ar y gwaith o nodi lle mae'r gwendidau, neu'r gwendidau tebygol, o ran seilwaith ac asedau. Mae'r fforymau hyn yn cynnwys partneriaid o'r tu allan i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol e.e. cwmnïau cyfleustodau, yr Asiantaeth Priffyrdd etc.

- Nodi'r strategaeth y mae angen eu cysylltu'n agosach er mwyn cryfhau'r seilwaith ac asedau.

- Paratoi cynllun gweithredu drafft i nodi'r bylchau mewn gwybodaeth sy'n atal pobl rhag gwneud penderfyniadau deallus

## Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth - Sir y Fflint yn 2017

# Beth Rydym Am Ei Wneud

Mae tabl isod yn crynhoi' hyn y byddwn yn ei wneud:

- Sicrhau gostyngiad o 80% mewn allyriadau carbon erbyn 2050 a gostyngiad o 3% o leiaf o'r naill flwyddyn i'r llall ar gyfer eiddo annomestig.
- Deall effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar ein cymunedau, ein hamgylcheddau gwaith, ein ffordd o fyw a'n lles, a pharatoi ar eu cyfer.

| | Partneriaid Allweddol (Y Prif Bartner / Partner ategol) | | | | | | | | | | | | | | | Pa un o'r is-flaenoriaethau fydd y gwaith hwn yn cyfrannu atynt? | | Amserlan | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yn Sir y Fflint, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i wneud yr isod:** | Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr | Coleg Cambria | Grŵp Dyffryn Dyfrdwy | Dŵr Cymru | Cyngor Sir y Fflint | Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint | Prifysgol Glyndŵr | Cyfoeth Naturiol Cymru | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | Heddlu Gogledd Cymru | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Scottish Power | Yr Asiantaeth Priffyrdd | Llywodraeth Cymru | Cyfleustodau Dŵr | Sicrhau'n bod yn lleihau'n ôl-troed carbon | Sicrhau y gall ein cynlluniau busnes ymateb i'r newid yn yr hinsawdd yn y | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
| **Sicrhau gostyngiad o 80% mewn allyriadau carbon erbyn 2050 a gostyngiad o 3% o leiaf o'r naill flwyddyn i'r llall ar gyfer eiddo annomestig.** | Partner ategol | Partner ategol | | | Prif Bartner | Partner ategol | | | Partner ategol | Partner ategol | | | | | | ✓ | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Adolygu a gosod y targedau yn y strategaeth lleihau carbon. | Prif Bartner | Prif Bartner | | | Prif Bartner | Prif Bartner | | | Prif Bartner | Prif Bartner | | | | | | ✓ | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Monitro a chyflwyno adroddiadau cynnydd bob chwarer. | Prif Bartner | Prif Bartner | | | Prif Bartner | Prif Bartner | | | Prif Bartner | Prif Bartner | | | | | | ✓ | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Parhau i gadw llygad ar newidiadau polisi a rhannu profiadau ac arbenigedd o fewn y bartneriaeth i gyrraedd y targed. | Prif Bartner | Prif Bartner | | | Prif Bartner | Partner ategol | | | Prif Bartner | Prif Bartner | | | | | | ✓ | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Gwneud newidiadau darbodus drwy wario i arbed. | Prif Bartner | Prif Bartner | | | Prif Bartner | Prif Bartner | | | Prif Bartner | Prif Bartner | | | | | | ✓ | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |

# Beth Rydym Am Ei Wneud

| Yn Sir y Fflint, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i wneud yr isod: | Partneriaid Allweddol (Y Prif Bartner / Partner ategol) | | | | | | | | | | | | | | | Pa un o'r is-flaenoriaethau fydd y gwaith hwn yn cyfrannu atynt? | | Amserlan | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr | Coleg Cambria | Grŵp Dyffryn Dyfrdwy | Dŵr Cymru | Cyngor Sir y Fflint | Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint | Prifysgol Glyndŵr | Cyfoeth Naturiol Cymru | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | Heddlu Gogledd Cymru | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Scottish Power | Yr Asiantaeth Priffyrdd | Llywodraeth Cymru | Cyfleustodau Dŵr | Sicrhau'n bod yn lleihau'n ôl-troed carbon | Sicrhau y gall ein cynlluniau busnes ymateb i'r newid yn yr hinsawdd yn y | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
| Rhoi newidiadau ar waith i leihau allyriadau carbon ac i ddefnyddio llai o ynni wrth gynnal a chadw/cynllunio adeiladau newydd a drwy broses o resymoli asedau. | Prif | Prif | | | Prif | Prif | | | Prif | Prif | | | | | | ✓ | | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Gweithredu'n unol â newidiadau polisi cenedlaethol pan gânt eu cyflwyno. | Ategol | Ategol | | | Prif | Ategol | | | Ategol | Ategol | | | | | | ✓ | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| **Deall effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar ein cymunedau, ein hamgylcheddau gwaith, ein ffordd o fyw a'n lles, a pharatoi ar eu cyfer.** | Ategol | Ategol | | | Prif | | | Ategol | Ategol | Ategol | | | | | | | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Paratoi cynllun ymaddasu ar gyfer y newid yn yr hinsawdd drwy weithio gyda'n gilydd i ddileu/lleihau'r risgiau a nodwyd ac i benderfynu ar fodel ar gyfer yr atebion gorau i leihau effaith hinsawdd sy'n newid.<br><br>Caiff hyn ei gwblhau ar sail risgiau unigol a fydd yn galluogi partneriaid i baratoi adroddiadau yn unol â Rhan 4 o'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd. | Ategol | Ategol | Ategol | | Prif | | Ategol | Ategol | Ategol | Ategol | | | Ategol | | | | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |

# Beth Rydym Am Ei Wneud

| Yn Sir y Fflint, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i wneud yr isod: | Partneriaid Allweddol: Y Prif Bartner / Partner ategol | | | | | | | | | | | | | | | Pa un o'r is-flaenoriaethau fydd y gwaith hwn yn cyfrannu atynt? | | Amserlan | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr | Coleg Cambria | Grŵp Dyffryn Dyfrdwy | Dŵr Cymru | Cyngor Sir y Fflint | Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint | Prifysgol Glyndŵr | Cyfoeth Naturiol Cymru | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | Heddlu Gogledd Cymru | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Scottish Power | Yr Asiantaeth Priffyrdd | Llywodraeth Cymru | Cyfleustodau Dŵr | Sicrhau'n bod yn lleihau'n ôl-troed carbon | Sicrhau y gall ein cynlluniau busnes ymateb i'r newid yn yr hinsawdd yn y | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
| Paratoi i ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd drwy ymateb i'r peryglon sy'n wynebu seilwaith ac asedau.<br><br>Cyflwyno rhaglen 'dreigl' i archwilio'r posibiliadau o ran ymaddasu i'r peryglon eraill a nodwyd. | Partner ategol | Partner ategol | Partner ategol | Partner ategol | Y Prif Bartner | | Partner ategol | Partner ategol | Partner ategol | Partner ategol | | | | | | | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | | |
| Ymchwilio i'r amodau a deall effaith y gwahanol ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â thywydd eithafol drwy gasglu tystiolaeth ddibynadwy am asedau a seilwaith. | Y Prif Bartner | Y Prif Bartner | | | Y Prif Bartner | | Y Prif Bartner | Y Prif Bartner | Y Prif Bartner | Y Prif Bartner | | | | | | | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Paratoi astudiaeth achos o ddigwyddiad a'i effaith ehangach ar yr holl bartneriaid gan gynnwys costau. Yn ogystal â nodi'r effaith, bydd hefyd yn cymharu'r gost o ymateb â'r gost o ymaddasu. | Partner ategol | Partner ategol | Partner ategol | | Y Prif Bartner | | Partner ategol | Y Prif Bartner | Partner ategol | Partner ategol | | | Partner ategol | Partner ategol | Partner ategol | | ✓ | ✗ | ✗ | | | |
| Paratoi model cost a budd i bennu cost digwyddiadau sy'n gysylltiedig â thywydd eithafol mewn cynlluniau ariannol hirdymor. Bydd hyn yn llywio'r gwaith o wella addasiadaus. | Partner ategol | Partner ategol | | | Y Prif Bartner | | Partner ategol | Partner ategol | Partner ategol | Partner ategol | | | Partner ategol | | | | ✓ | ✗ | ✗ | | | |

# Beth Rydym Am Ei Wneud

| Yn Sir y Fflint, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i wneud yr isod: | Partneriaid Allweddol: Y Prif Bartner / Partner ategol | | | | | | | | | | | | | | | Pa un o'r is-flaenoriaethau fydd y gwaith hwn yn cyfrannu atynt? | | Amserlan | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr | Coleg Cambria | Grŵp Dyffryn Dyfrdwy | Dŵr Cymru | Cyngor Sir y Fflint | Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint | Prifysgol Glyndŵr | Cyfoeth Naturiol Cymru | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | Heddlu Gogledd Cymru | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Scottish Power | Yr Asiantaeth Priffyrdd | Llywodraeth Cymru | Cyfleustodau Dŵr | Sicrhau'n bod yn lleihau'n ôl-troed carbon | Sicrhau y gall ein cynlluniau busnes ymateb i'r newid yn yr hinsawdd yn y | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
| Adolygu rhyngddibyniaeth polisi a strategaeth i helpu i osgoi tarfu ar wasanaethau. Caiff hyn ei seilio ar ymchwil i arfer da'n ymwneud ag addasiadau i gynnal neu i greu arbenigedd. | Ategol | Ategol | Ategol | Ategol | Prif | | Ategol | Ategol | Ategol | Ategol | | | Ategol | | Ategol | | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Cynnwys addasiadau mewn cynlluniau busnes i gryfhau gwasanaethau. | Ategol | Ategol | | | Prif | | Ategol | | Ategol | Ategol | | | | | | | ✓ | | | ✗ | ✗ | ✗ |
| Meithrin dealltwriaeth o ba mor agored i niwed yw cwmnïau cyfleustodau yn Sir y Fflint. | Ategol | Ategol | Prif | Prif | Prif | | | Ategol | Ategol | Ategol | | | | | Prif | | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | | |
| Archwilio cyfleoedd i annog rhwydweithiau presennol i ymgymryd ag addasiadau e.e. y Fforwm Cydnerthu Lleol, rhwydweithiau proffesiynol cenedlaethol | Prif | Prif | Prif | Prif | Prif | | Prif | Prif | Prif | Prif | Prif | Prif | Prif | | Prif | | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | | |
| Rhoi newidiadau i bolisi cenedlaethol ar waith a bod yn ymwybodol o becynnau cymorth a fydd yn hybu'r gwaith hwn pan fo hynny'n briodol. | Ategol | Ategol | | | Prif | | Ategol | Ategol | Ategol | Ategol | | | | | | | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |

## **Symud ymlaen** (materion y bydd angen eu hystyried mewn cynlluniau cyflenwi yn y dyfodol):

- Mae'n hanfodol parhau i gydweithredu gan na all unrhyw un sefydliad roi cynlluniau ymaddasu ar waith heb i hynny effeithio ar sefydliadau eraill.
- Mae cydweithrediad ac ymrwymiad ein partneriaid yn dyngedfennol os ydym am ddeall goblygiadau ariannol cyfannol digwyddiadau sy'n gysylltiedig â thywydd eithafol.
- Rhaid trefnu rhaglen dreigl i archwilio'r risgiau sy'n parhau.
- Parhau i sicrhau ein bod yn rheoli'r peryglon sydd ynghlwm wrth y newid yn yr hinsawdd.

## Beth yw:-

**Ôl-troed carbon** - Faint o garbon deuocsid sydd yn yr atmosffer.

**Ymrwymiad i Leihau Carbon** - Cynllun gorfodol i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon a lleihau allyriadau mewn sefydliadau mawr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

**Fforymau** - Grwpiau o arbenigwyr sy'n trafod mater cyhoeddus neu bwnc difrifol arall.

**Cynlluniau Ynni Adnewyddadwy** - Cynlluniau i ddefnyddio ynni  o ffynonellau naturiol e.e. golau'r haul.

**Datganiad uchelgais** - Dogfen a baratowyd ar gyfer pob un o bedair blaenoriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac a gytunwyd gan y Bwrdd. Mae'r ddogfen hon yn rhoi darlun cyffredinol o'r hyn y mae'r Bwrdd am ei gyflawni, yr hyn y mae am ei newid a'r rhesymau dros hynny.

# Dogfennau perthnasol eraill (hyperddolenni):

**Cyffredinol:**
Datganiad uchelgais ar gyfer y maes blaenoriaeth
Adroddiadau cynnydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar gyfer Blaenoriaeth 4

**Adnoddau eraill ym maes cynllunio corfforaethol a risgiau newid hinsawdd:**
I weld enghreifftiau penodol o ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd yng Nghymru, ewch i wefan CLlLC:
http://www.wlga.gov.uk/newid-hinsoddol
Mae arweiniad cyffredinol gan DEFRA (2013) i waith awdurdodau lleol a'r newid yn yr hinsawdd ar gael ar ddau safle:
https://www.gov.uk/climate-change-adaptation-information-for-local-authorities

**Adnoddau eraill ym maes gwasanaethau democrataidd, gwasanaethau craffu a risgiau newid hinsawdd:**
I weld enghreifftiau penodol o ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd yng Nghymru, ewch i wefan CLlLC : http://www.wlga.gov.uk/newid-hinsoddol
Mae arweiniad cyffredinol gan DEFRA (2013) i waith awdurdodau lleol a'r newid yn yr hinsawdd ar gael ar ddau safle:
https://www.gov.uk/climate-change-adaptation-information-for-local-authorities

**Adnoddau eraill ym maes datblygu economaidd ac adfywio a risgiau newid hinsawdd:**
UNEP & World Resources Institute Adapting for a Green Economy: companies, communities and climate change (2011). Trafodaeth gyffredinol am oblygiadau'r newid yn yr hinsawdd o ran eonomïau lleol a'r sector preifat.
http://unglobalcompact.org/docs/issues_doc/Environment/climate/C4C_Report_Adapting_for_Green_Economy.pdf
Climate NE (2012) Economic Evaluation of Climate Impacts . Dadansoddiad rhanbarthol o gostau a buddion economaidd y newid yn yr hinsawdd.
http://www.climatenortheast.com/contentControl/documentControl/Economic%20Evaluation%20of%20Climate%20Change%20Impacts.pdf

**Adnoddau eraill ym maes cyllid a risgiau newid hinsawdd:**
BSR A guide to Climate Adaptation for the Finance Service Industry Trafodaeth ar y peryglon allweddol a sut y mae cwmnïau ariannol yn asesu addasiadau.
http://www.bsr.org/reports/BSR_Climate_Adaptation_Issue_Brief_Financial_Services.pdf

# Dogfennau perthnasol eraill (hyperddolenni):

Climate-wise (2013) Global Insurance Industry Leadership Group on Climate Adaptation Erthyglau am y beryglon o ran yr hinsawdd ac ymateb y diwydiant yswiriant. http://www.climatewise.org.uk/

Chatham House (2012) Resources Futures Dadansoddiad o'r tueddiadau sy'n debygol o effeithio ar adnoddau a'u cynaliadwyedd - gan gynnwys y newid yn yr hinsawdd
http://www.chathamhouse.org/research/eedp/current-projects/managing-resources-futures

DEFRA UK Climate Risk Assessment (2012) Trosolwg ar y peryglon o ran yr hinsawdd a gwaith yr aDran Drafnidiaeth ac asiantaethau allweddol eraill.
http://www.defra.gov.uk/environment/climate/government/risk-assessment/

**Adnoddau eraill ym maes gwastraff ac iechyd yr amgylchedd a risgiau newid hinsawdd:**

TUC (2009) Changing work in changing climate – Yn nodi'r goblygiadau i staff a gweithwyr o ran iechyd a diogelwch etc.
http://www.tuc.org.uk/economy/tuc-16331-f0.pdf

**Adnoddau eraill ym maes Iechyd yr Amgylchedd:**

Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (2013) Crynodeb o effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar iechyd - cysylltiadau â gwaith ymchwil yr Adran Iechyd
http://www.cieh.org/policy/climate_change_and_environmental_health.html

**Adnoddau eraill ym maes eiddo, asedau, tir a risgiau newid hinsawdd:**

DEFRA Climate Resilient Infrastructure (2011) Trosolwg ar y risgiau newid hinsawdd o ran seilwiath, gan gynnwys eiddo, tgir ac asedau.
http://www.defra.gov.uk/publications/2011/05/09/climate-resilient-infrastructure/

Royal Academy of Engineering (2011) Infrastructure, Engineering and Climate Adaptation. Manylion risgiau newid hinsawdd a'r gwaith i gryfhau'r gallu i wrthsefyll yr effeithiau. http://www.raeng.org.uk/news/publications/list/reports/Engineering_the_future_2011.pdf

# Dogfennau perthnasol eraill (hyperddolenni):

**Adnoddau eraill ym maes cynllunio, cefn gwlad, bioamrywiaeth a risgiau newid hinsawdd:**

RTPI (2012) Planning for Climate Change: Guidance for Local authorities http://www.tcpa.org.uk/data/files/PCC_Guide_April_2012.pdf

Llywodraeth Cymru (2012) Polisi Cynllunio Cymru (2012) Pennod 4 - Cynllunio at Gynaliadwyeddy
http://wales.gov.uk/docs/desh/publications/121107ppw5chapter4en.pdf

Llywodraeth Cymru (2012) Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd
http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/climatechange/publications/riskassess/?skip=1&lang=cy

Asiantaeth yr Amgylchedd (2010) Llifogydd yn y Dyfodol yng Nghymru: Amddiffynfeydd
http://www.environment-agency.gov.uk/static/documents/Research/Flooding_in_Wales_Flood_defences_ENGLISH_V5.pdf

Dŵr Cymru (2011) Rheoli Adnoddau Dŵr http://www.dwrcymru.com/_library/wrmp/Rev_WRMP.pdf

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (2011) Climate Vulnerability of Designated Sites
Climate Vulnerability Assessment of Designated Sites in Wales-Final Report 209 TSG 09 (2 MB)

Soilscapes (2013) adnawdd ar y we gan Brifysgol Cranfield am reoli pridd a'r newid yn yr hinsawdd http://www.landis.org.uk/soilscapes/

Comisiwn Coedwigaeth Cymru (2008) adroddiad ar effeithiau'r hinsawdd ar goedwigaeth yng Nghymru www.forestresearch.gov.uk/climatechangewales).

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a CADW (2010) Climate change and the historic environment of Wales
http://cadw.wales.gov.uk/docs/cadw/publications/Climate_change_and_the_historic_environment_of_Wales_EN.pdf

**Adnoddau eraill ym maes trafnidiaeth a risgiau newid hinsawdd:**

DEFRA UK Climate Risk Assessment (2012) Trosolwg ar risgiau newid hinsawdd a chynnydd yn y maes gan yr Adran Drafnidiaeth ac asiantaethau allweddol eraill. http://www.defra.gov.uk/environment/climate/government/risk-assessment/

Transport Planning Society (2009) Local Transport Adapting to Climate Change
Trosolwg ar broblemau sy'n amharu ar rwydweithiau a'r camau a gymerir i feithrin gallu'r rhwydwaith i'w gwrthsefyll.
http://www.tps.org.uk/files/Main/Library/2009/local_transport_adapting_to_climate_change_briefing.pdf

Yr Asiantaeth Priffyrdd (2009) Climate Change Adaptation Framework
Trosolwg ar y risgiau a'r blaenoriaethau i'r Asiantaeth wrth i'r hinsawdd newid.
http://assets.highways.gov.uk/about-us/climate-change/CCAF_Strategy_and_Vol_1_Rev_B_Nov.pdf

Royal Academy of Engineers, Institute of Civil Engineers, Institute Chemical Engineers (2011) Engineering the Future: Infrastructure, Engineering and Climate Adaptation Gwybodaeth fanwl am y prif broblemau sy'n effeithio ar y seilwaith wrth i'r hinsawdd newid, gan gynnwys rhwydweithiau trafnidiaeth.
http://www.raeng.org.uk/news/publications/list/reports/Engineering_the_future_2011.pdf

# Dogfennau perthnasol eraill (hyperddolenni):

Network Rail (2011) Climate Change Adaptation Report – troslwg ar y prif risgiau sy'n wynebu'r seilwaith rheilffyrdd a gwasanaethau a strategaeth i ymateb i hynny. http://archive.defra.gov.uk/environment/climate/documents/adapt-reports/06road-rail/network-rail.pdf

**Adnoddau eraill ym maes ysgolion, gwasanaethau llyfrgell a risgiau newid hinsawdd:**

Be Birmingham Partnership (2010) Best Practice in Adapting Schools to Climate Change: The Risks and Key Players West Midlands Climate Change Partnership & West Midlands Centre for Construction Excellence. Astudiaethau achos o'r risgiau a dulliau o ymaddasu wrth adeiladu o'r newydd.
http://www.bebirmingham.org.uk/uploads/Best%20Practice%20in%20Adapting%20Schools%20to%20Climate%20Change%20Final.pdf

**Gall y dolenni a ganlyn fod yn ddefynyddiol ym maes ymaddasu i'r hinsawdd mewn Gwasanaethau Llyfrgell:**

British Library (2013) Basic preservation for library and archive collections. Effaith llifogydd a gwres ac archifau'r llyfrgell.
http://www.bl.uk/blpac/pdf/basic.pdf

Y Weinidogaeth Cyfiawnder (2011) Departmental Climate Adaptation Plan. Managing risks to archives and museums.
http://archive.defra.gov.uk/environment/climate/documents/dept-adapt-plans/dap-moj-110512.pdf

**Adnoddau eraill ym maes tai cymunedol a chymdeithasol a risgiau newid hinsawdd:**

Chartered Institute of Environmental Health (2013) Climate Change & Housing - adnawdd ar y we http://www.cieh.org/policy/climate_change_and_housing.html

UKCIP (2012) Social and community housing in a changing climate. Trosolwg cryno ar y prif effeithiau a'r problemau y dylai sefydliadau tai eu hystyried .
http://www.ukcip.org.uk/wordpress/wp-content/LA_briefings/LA-briefing-Social-housing.pdf

# Dogfennau perthnasol eraill (hyperddolenni):

Sefydliad Joseph Rowntree (2012) Climate Change, justice and vulnerability. Trosolwg ar effeithiau cymdeithasol posibl y newid yn yr hinsawdd ar glientiiaid gwasanaethau tai cymunedol a chymdeithasol. http://www.jrf.org.uk/publications/climate-change-justice-and-vulnerability

**Adnoddau eraill ym maes gwasanaethau cymdeithasol a risgiau newid hinsawdd**

Diogelu Iechyd Cymru (2009) Mynd i'r Afael ag Effeithiau'r Newid Hinsawdd ar Iechyd
http://wales.gov.uk/topics/health/protection/environmental/publications/climate/?skip=1&lang=cy

Sefydliad Joseph Rowntree (2012) "Climate change, justice and vulnerability" trafodaeth ar y modd y gall y newid yn yr hinsawdd effeithio ar bobl dlawd neu dan anfantais. http://www.jrf.org.uk/work/workarea/climate-change-and-social-justice

Social Care Institute for Excellence (2013) Climate change and managing the risks to people and services. Arweiniad ar gynllunio i ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd. http://www.scie.org.uk/adults/sustainablesocialcare/index.asp

# Casglu a rhannu gwybodaeth

Er mwyn gwybod ein bod yn gwneud gwahaniaeth ac i'n helpu ni i benderfynu at beth y dylem dargedu'n hegni a'n hadnoddau, bydd angen casglu a deall gwybodaeth o wahanol ffynonellau. Mae'n hanfodol bod y partneriaid a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn rhannu gwybodaeth er mwyn deall beth sy'n bwysig yn Sir y Fflint.

Caiff nifer fawr o wybodaeth ddefnyddiol ei chasglu gan dimau ac adrannau gwahanol a chan bartneriaid gwahanol. Mae'r hyn sy'n ddefnyddiol i un partner bob amser yn defnyddio i bartner arall. Mae Cynllun Lles Sir y Fflint yn gyfle i ddwyn y wybodaeth hon ynghyd mewn ffyrdd newydd a gwahanol i gael gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd ar hyd a lled y Sir. Fel Bwrdd Gwasanaethau Lleol, rydym am sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf gennym i'n helpu ni i asesu a deall unrhyw newidiadau a bydd y wybodaeth hon yn ei gwneud yn haws i ni weld beth yw angen mwyaf y gwahanol wasanaethau a beth yw effaith y gwasanaethau hynny ar fywydau pobl. Er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd, byddwn yn cytuno ar ddulliau o rannu gwybodaeth a gwella'n dulliau o asesu angen. Drwy gasglu gwybodaeth ddibynadwy gan wahanol wasanaethau gall y Bwrdd Gwasanaethau Lleol gynllunio'n well a dysgu o brofiadau cyrff eraill a blaenoriaethu gwaith.

**Manteision rhannu gwybodaeth;**

- Mae'n ein galluogi i rannu gwybodaeth, profiadau a'r galw am wasanaethau.
- Cawn ddarlun llawnach o'n cymunedau a'u hanghenion.
- Mae'n ein helpu i gynllunio gwasanaethau a chydgysylltu gwaith i ddiwallu anghenion ein cymunedau
- Mae'n ein helpu i weld problemau'n gynt a bod yn rhagweithiol yn hytrach na'n ymatebol
- Mae'n ein galluogi i wneud gwell penderfyniadau
- Mae'n ein helpu i fonitro'r Cynllun ar sail y blaenoriaethau
- Gallwn osgoi dyblygu ac ailadrodd gwaith yn ddiangen, gan arbed arian
- Gallwn osgoi'r perygl i wahanol bartneriaid weithio mewn ffyrdd sy'n gwrthdaro.

**Pa wybodaeth gaiff ei defnyddio?**

Mae gan bob partner ei wybodaeth ei hun am y gwasanaethau y mae'n ei ddarparu; er enghraifft, mae gan Heddlu Gogledd Cymru wybodaeth am drosedd, mae gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr wybodaeth am iechyd ac mae gan y Cyngor wybodaeth am addysg a gwasanaethau cymdeithasol etc.

Os ydym am gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun hwn bydd angen i bob partner rannu gwybodaeth gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a gyda'i gilydd. Gall hyn olygu bod adroddiadau a dogfennau'n cael eu rhannu neu ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i rannu gwybodaeth gan y cyhoedd, neu ymweld â chyrff eraill i weld sut y maent yn gweithio a nodi arfer da. Gan amlaf, gwybodaeth am berfformiad a data rheoli a gaiff ei chasglu, fel lefelau trosedd mewn ardal benodol, presenoldeb yn yr ysgol neu nifer y cleifion sy'n mynd i'r ysbyty. Weithiau, bydd angen gwybodaeth fanylach. Os caiff gwybodaeth bersonol ei rhannu, byddwn yn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn gyfreithlon ac yn ddiogel drwy gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data a chydraddoldeb.

Efallai y bydd angen paratoi 'Protocol Rhannu Gwybodaeth ' gan ddefnyddio Cydsyniad Cymru ar gyfer Rhannu Gwybodaeth Bersonol i sicrhau, er enghraifft, diogelwch unigolion. Bydd hyn yn esbonio pa wybodaeth y gellir ei rhannu'n ddiogel a'r broses y dylid ei dilyn i rannu gwybodaeth.

# Ymgynghori ac ymgysylltu – cynnwys pobl yn ein gwaith

Mae'r partneriaid presennol wedi ymgynghori'n eang eisoes, yn enwedig wrth bennu'r blaenoriaethau pwysicaf i'w partneriaid ganolbwyntio arnynt.

Wrth ddatblygu'r Cynllun hwn, ystyriwyd y canlyniadau a'r negeseuon allweddol a gafwyd yn dilyn gwaith ymgynghori amrywiol gan y partneriaid a'r bartneriaeth yn ystod y 2-3 blynedd diwethaf.

Bydd angen hefyd:

**Datblygu dulliau cyson o ymgysylltu â'r cyhoedd fel partneriaeth**

- Gofalu bod dealltwriaeth gyffredin ymhlith y partneriaid am ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Gweithio tuag at ddefnyddio dulliau o ddatblygu a monitro gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.

**Sicrhau bod ymgysylltu â'r cyhoedd yn fusnes craidd**

- Gofalu bod yr angen i ymgysylltu â'r cyhoedd yn ganolog i'r modd y mae'n holl bartneriaid yn gweithredu wrth gynllunio a darparu gwasanaethau lleol.
- Gofalu bod sylwadau gan y cyhoedd yn gysylltiedig â gwella gwasanaethau.

**Hyrwyddo a thynnu sylw at gynlluniau ymgysylltu yn Sir y Fflint**

- Hyrwyddo cyfleoedd i ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Hyrwyddo manteision ymgysylltu â'r cyhoedd yn effeithiol fel ffordd o wella gwasanaethau a chymunedau.

**Datblygu ffyrdd gwell o gyfathrebu**

- Datblygu systemau gwell o gael sylwadau gan bobl.
- Cyfathrebu mewn ffordd sy'n addas i bawb sy'n dewis cyfrannu.
- Manteisio i'r eithaf ar dechnoleg i hybu pob agwedd ar ymgysylltu.
- Treialu a/neu ddysgu oddi wrth ddulliau arloesol a newydd o ymgysylltu â'r cyhoedd gan ystyried cymunedau a'u hanghenion.

Mae'n bwysig bod amrywiaeth eang o bobl yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau.

# Trefniadau Llywodraethu a Sicrwydd

Mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir y Fflint (y Bwrdd) yn gyfrifol am roi Cynllun Lles Sir y Fflint ar waith.

Mae cynrychiolwyr o'r cyrff a ganlyn ar y Bwrdd;

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Coleg Cambria
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint
- Prifysgol Glynd r
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Gwasanaeth Prawf Cymru
- Llywodraeth Cymru

Maent yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Ym mhob cyfarfod bydd y Bwrdd yn cael adroddiad cynnydd am bob un o'r blaenoriaethau. Mae'r blaenoriaethau wedi'u cynnwys yng nghynlluniau corfforaethol y partneriaid e.e. Cynllun Gwella'r Cyngor.

- **Blaenoriaeth 1 - Arwain drwy esiampl fel cyflogwyr ac arweinwyr cymunedol**
- **Blaenoriaeth 2 - Mae pobl yn ddiogel**
- **Blaenoriaeth 3 - Mae pobl yn mwynhau iechyd da, lles ac annibyniaeth**
- **Blaenoriaeth 4 - Arferion amgylcheddol sefydliadau**

Bydd y Bwrdd yn paratoi adroddiad i Bwyllgor Arolygu a Chraffu Proffil Cymunedol a Phartneriaethau a'r Cabinet bob chwe mis.

Hefyd, mae Tîm Cymorth yn cynorthwyo'r Bwrdd ac mae'n gweithredu fel 'T  Clirio' ac yn cynorthwyo â'r strategaeth gyffredinol drwy:-

- Hidlo'r materion perthnasol i gynorthwyo'r Bwrdd i  ganolbwyntio ar y meysydd hynny y gall effeithio fwyaf arnynt a datblygu trosolwg clir ar y strategaeth a'u helpu i sicrhau ei bod yn ateb y diben.
- Nodi ac asesu materion sy'n ymwneud yn benodol â dinasyddion / cymunedau a'u cyfeirio at y Bwrdd lle bo hynny'n briodol.
- Adeiladu ar ei swyddogaethau rheoli gwybodaeth presennol, a'u hatgyfnerthu, gan gynnwys datblygiadau polisi a'u goblygiadau o ran lles.
- Hyrwyddo set o nodweddion craidd, cytunedig sy'n seiliedig ar werthoedd ac sy'n cynnwys;
    - Defnyddio adnoddau'n ddarbodus ac yn effeithiol.
    - Sicrhau cydlyniad o ran effeithlonrwydd a llwyddiant y canlyniadau, gan osgoi anghysondeb a sgil effeithiau negyddol.
    - Gweithio'n agored ac yn dryloyw, yn arloesol ac yn hyblyg gan ddefnyddio tystiolaeth ac arfer da yn y ffordd orau bosibl.
- Darparu cymorth i sicrhau penderfyniadau deallus ac amserol.
- Creu rhyngwyneb effeithiol gyda phartneriaethau cyflenwi  a meysydd polisi.
- Creu un pwynt canolog ar gyfer casglu'r wybodaeth sydd ar gael.

# Monitro ac Adolygu

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (y Bwrdd) yn gyfrifol am roi'r Cynllun Integredig Sengl ar waith yn Sir y Fflint a bydd yn monitro, gyda'i bartneriaid, hynt y gwaith a'r hyn a gyflawnir.

Caiff y Cynllun ei adolygu'n rheolaidd gan y Bwrdd i sicrhau bod y blaenoriaethau ar gyfer unrhyw flwyddyn benodol yn parhau'n gyfredol a'u bod yn adlewyrchu'r angen cyfredol gan sicrhau hefyd bod cynnydd yn cael ei wneud.

Bydd y datblygiadau allweddol yn cael eu hyrwyddo ar wefan Cyngor Sir y Fflint a drwy ddulliau eraill a ddefnyddir eisoes i rannu gwybodaeth e.e. cylchlythyr Eich Cymuned Chi, Eich Cyngor Chi a chylchlythyrau electronig ein partneriaid etc, yn ôl yr angen.

# Fformatau hygyrch

Dogfen ddwyieithog yw hon ac mae wedi'i chyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg ar wefan pob un o'n partneriaid.

Mae fformatau eraill ar gais drwy gysylltu â'r isod:


Cyngor Sir y Fflint<br>
Tîm Polisi a Pherfformiad<br>
Gwasanaethau Corfforaethol<br>
Neuadd y Sir<br>
Yr Wyddgrug<br>
Sir y Fflint

Ffôn: 01352 701476<br>
E-bost: PolicyandPerformanceTeam@flintshire.gov.uk